

CANU GWERIN

(FOLK SONG)



33 - 2010

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney

Buddug Lloyd Roberts



Cadeirydd

Dafydd Idris Edwards

Is-Gadeirydd

Ann Saer

Aelodau

Bethan Bryn (2008)

Gwenan Gibbard (2009)

Einir Wyn Jones (2009)

Leila Salisbury (2008)

Siân Thomas (2008)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rcg01d@quikmail.co.uk

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
Ffôn: (01970) 610160

Llun y clawr: Thomas Edwards 'Twm o'r Nant' (1763)
trwy ganiatâd caredig Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Rhifyn 33 – 2010

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol	5
Cofio dau	
Ben Bach: y canwr gwerin o Fathri	7
(Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2002)	
Roy Saer	
Bob Tai'r Felin	22
(Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2009)	
Dan Puw	
Cloddio'r Aur: Canrif Cylchgrawn y Gymdeithas	33
Rhidian Griffiths	
Cân arall eto o gasgliad Tal Griffith	44
Buddug Lloyd Roberts	
Casglu alawon yn ysgolion Ceredigion 1921–6	47
Dafydd Ifans	
Cyfarwyddiadau ar gyfer perfformio cân werin	59
Emrys Cleaver	
Llythyr	61
John Clough	
Pen blwydd nodedig	62
Adolygiadau	63
Meredydd Evans, <i>Hela'r Hen Ganeuon</i> (Talybont: Y Lolfa, 2009)	
Cass Meurig	
Cass Meurig, <i>Deuawd</i>	64

COFIO DAU


Eleni bu aml un drwy Gymru yn coffáu dau ganmlwyddiant marwolaeth y dramodydd a'r bardd o Gymro Thomas Edwards 'Twm o'r Nant' (1739–1810), dyn oedd yn llawn drama, o'r crud i'r bedd. Ni chafodd fawr o addysg, ond er hynny dysgodd ysgrifennu yn ysgol rad Nantglyn.



Llun: Elinion Dafydd

Y farn gyffredin yw mai dyma (isod) lawysgrifen Twm o'r Nant, ac fe'i gwelir mewn anterliwt a ysgrifennwyd ganddo ef ei hun, mae'n debyg, dan y teitl 'Bachgen y Parcwr', tua'r flwyddyn 1770. Cyfansoddodd nifer o anterliwtiau, a rhan hanfodol o'r rheini yw'r caneuon a luniodd i'w canu ar alawon y dydd, rhai brodorol a rhai benthyg. Erbyn hyn fe'u hystyrir ymysg ein halawon gwerin traddodiadol.

Manteisiodd ar gorff ei anterliwtiau i ddatblygu maniffesto cymdeithasol ac mae'r maniffesto gyfryw, y byddai'n anodd peidio â'i lyncu'n gyfan ar y gwrandawriad cyntaf. Cadw cefn y tlawd – dyna brif nodwedd ei anterliwtiau. Petaem ni'n iawn ddeall ystyr y gair *tlawd* byddem hanner ffordd at ddeall amodau byw cynulleidfia Twm o'r Nant: crafu byw oedd y rhain. Cawn olwg ar eu tloidi yn yr anterliwt *Tri Chryfion Byd* (1789) lle mae gwrach o'r enw Y Widdanes Dloddi yn brolio ei hawdurdod dros boblach y ddaear, a'r modd mae hi'n rheoli drostynt â llaw galed.



Trwy ganiatâd caredig Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ateb i fygythiadau'r wrach yw 'Cân y Galwedigaethau', lle mae Syr Tom Tell Truth, y Ffŵl, yn nodi pedwar ugain a deg o swyddi y medrai rhywun droi ei law atynt er mwyn osgoi syrthio i grafangau'r wrach. Dyma flas arni:

Rhai yn cerdded gwlad a thre',
A rhyw goeg wyrthie i'w gwerthu;
Rhai yn crio yn nryse tai,
Mewn cwynion, a rhai'n canu;
Telynwr, Ffidler, Joci, Porthmon,
Baili, Cwnstabl, Jailer, Hangmon,
Rhai'n dwyllodrus, a rhai'n lladron;
Felly beunydd mae rhai'n ymboeni
A rhyw alwad i'w rheoli,
Rhwyg taledig, rhag tylodi.

Fe'i cenir yn yr anterliwt ar yr alaw 'Y ddime goch'. Cenir pum pennill ohoni ar gerdd dant ar gryno ddisg diweddaraf Parti Cut Lloi *Y Dyn Bach Bach*. Y cantor yw Alun Jones, cyfreithiwr yn y Trallwng, ond fe gofia'r gân yn cael ei chanu'n lleol yn Nyffryn Banw gan ei dad a ffrindiau ei dad. Yn ôl y nodiadau a ddaw gyda'r CD yr oedd hi'n boblogaidd iawn gyda chantorion cefn gwlad mewn *socials* pan oedd Alun Jones yn góg, hynny yw yn chwedegau'r ugeinfed ganrif, a chofia'n dda glywed y diweddar Eddie Roberts, John Ellis Moeldrehaearn, a'i dad, yn ei chanu.

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth ddisyfyd John Ellis Lewis, Moeldrehaearn, Dolanog, ar 17 Ionawr 2010 yn 82 oed. Ni chlywais erioed mohono'n canu 'Cân y Galwedigaethau', gwaetha'r modd, ond gallaf ei ddychmygu yn ei chanu ag afiaith ac â naturioldeb greddfoll. Roedd ganddo afael gadarn ar arddull ddiroddres cyflwyno'r gân werin, a dealltwriaeth o'r gofynion ym mên ei esgyrn. Mae cantorion gwerin fel John Ellis fel llwch aur yn y Gymru Gymraeg, a'r golled ar ei ôl yn ysgytwol. Yn sgil ei golled gofynnaf yn daer i holl ddarlennwyr *Canu Gwerin* fod yn genhadon brwd a diflino wrth rannu steil canu gwerin traddodiadol yn y genhedlaeth hon. I'n helpu ni ar y daith honno fe atgynhyrchir yma (tt. 59–60) grynodeb o sylwadau Emrys Cleaver ynghylch sut i fynd ati i gyflwyno cân werin mewn dull priodol. Talwn sylw i'r canllawiau hyn, gwrandawn ar recordiadau o gantorion fel John Ellis, dysgwn – a pherfformiwn!

Darlith Goffa Amy Parry-Williams
Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi
Awst 2002

BEN BACH: Y CANWR GWERIN O FATHRI

D. Roy Saer



Llun: Alan Jones, Cobyten

Tra gwelir ei gyfoeswr Bob Tai'r Felin wedi ei gydnabod – a hynny'n haeddiannol – rhwng cloriau *Y Bywgraffiadur Cymreig*, mae'n gwestiwn a oes bellach ymysg Cymry Cymraeg fawr ddim gwybodaeth wedi aros am Ben Bach, canwr gwerin o gwr arall i'n gwlad ac un na chafodd sylw mor llawn ag sy'n deilwng iddo.

Bron nad hap a damwain fu i'w lais ef gael ei gofnodi o gwbl, ac yr oedd eisoes yn bedwar ugain oed ar y pryd. O ystyried hyn, mae yna elfen o ramant yn yr hanesyn am ei 'ddarganfod'. Tafarn y Sloop ym Mhorth-gain, porthladd bychan gerllaw Tre-fin yng ngogledd sir Benfro, oedd y fangre, a rhywdro yn ystod 1952 oedd yr adeg. Pwy a eisteddai yn y bar ar y noson ond John Harries, gŵr a drigai yn bennaf yn Llundain ond bod ganddo ef a Gwen, ei gyymar o Gaerdydd, fwthyn haf o'r enw Garn Barcud wedi ei rentu yn Aber Bach, lai na thair milltir i'r gogledd o Fathri. Rhan o fywoliaeth John Harries ydoedd ysgrifennu storiâu a sgriptiau yn Saesneg ar gyfer y radio, ac un o'i ddi-ddordebau brwd, drwy gyd-ddigwyddiad ffodus, oedd maes canu gwerin. Swynwyd ef yn arbennig wrth glywed Ben yn canu fersiwn ar hen faled Saesneg enwog 'Sweet William': 'O father, father, build me a boat, / Upon the ocean that I may float; ...'. A'r clywed hwnnw a drawsnewidiodd yr hyn a oedd yn weddill o fywyd Ben Bach.

Mae lle i gredu bod John Harries wedi llwyddo i recordio rhywfaint ar Ben yn y fan a'r lle. Ond sut bynnag am hynny, y canlyniad arwyddocaol fu i John Harries gysylltu â'i gyfaill personol John Griffiths, cynhyrchydd rhaglenni yng ngorsaf radio'r BBC yn Abertawe, ac un a oedd eisoes wedi comisiynu sawl sgript ganddo. Trefnwyd i'r BBC ei hunan recordio'r hen ganwr, ac o fewn ychydig wythnosau neu fisoedd, yn y Farmers Arms ym Mathri, yr oedd y bwriad wedi ei gyflawni. Yn dilyn, ar 17 Hydref yr un flwyddyn dychwelodd y ddau John, gyda cherbyd recordio a thechnegydd, i Fathri unwaith eto i weld Ben Bach ar ei aelwyd, lle canwyd iddynt 13 o ganeuon. Ymhen deufis wedyn cynhyrchodd John Griffiths raglen Gymraeg *Hosan Nadolig* a ddarlledwyd (ar 19 Rhagfyr) yn fyw o'r pentre, pan glywyd llais Ben Bach ar radio am y tro cyntaf oll. Un eitem yn unig a ganwyd ganddo y tro hwn, ond fis Chwefror 1953 darlledwyd ar Wasanaeth Cartref Cymreig y BBC raglen Saesneg yn dwyn yr enw *Ben Bach*, wedi ei sgriptio gan John Harries a'i chynhyrchu gan John Griffiths a'i chyflwyno gan y ddau ohonynt, lle'r adroddwyd hanes y canwr, gan gynnwys ei lais yn sgysio a hefyd yn canu (weithiau'n dalfyredig) gynifer â deuddeg o'r eitemau a recordiwyd

ar ei aelwyd y mis Hydref blaenorol. (Yn ystod y rhaglen, gyda llaw, un honiad trawiadol a wnaed gan John Harries yn sgil ei ymchwiliadau personol oedd fod alaw 'Sweet William' fel y'i canwyd gan Ben yn rhagori o ran ei ffurf ar unrhyw un arall a oedd erioed wedi ei chofnodi gyda geiriau'r gân hon cyn hynny.)

Ar 1 Medi (1953 eto) canodd Ben bum eitem yn ychwanegol i'r BBC, yn awr yn nhafarn y Bridge End, Llanychâr, pan ddaeth y Gwyddel Seamus Ennis ynghyd ag Emrys Cleaver heibio fel cynrychiolwyr Cynllun Casglu Cerddoriaeth Werin a Thafodiaith y Gorfforaeth. (Y prif berfformiwr y noson honno oedd Andrew Thomas, Pen-cnwc, Cwm Gwaun, ond ymunodd ei nai Ben Thomas, a hefyd Ben Bach, ag ef ar ambell gân.) Erbyn 1954 yr oedd llais Ben Bach i'w glywed ar gyfres radio enwog *As I Roved Out*, ac ynghanol mis Hydref y flwyddyn ddilynol fe'i cyfwelwyd ar deledu'r BBC gan Hywel Davies ar raglen *Seventy Years Young*, a ffilmiwyd yn Stiwdio Broadway, Caerdydd. A dyma'r tro olaf, mae'n debyg, i Ben gael ei recordio. Mae'n wir i'w eitemau fod ar y radio sawl gwaith yn ystod y ddau ddegawd nesaf, ond o fewn rhyw dair blynedd i'w unig ymddangosiad ar sgrin yr oedd yr hen ganwr mwyn yn ei fedd. Bu farw yn 1958, ac yntau'n 86 oed.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach (yn 1975 ac ar ôl hynny) cyhoeddwyd ei ddatganiadau, ynghyd â rhai Andrew a Ben Thomas, drwy gyfrwng casét a chryno ddisg gan Folktracks (wedyn Folktrax) and Soundpost Publications, cwmni Peter a Beryl Kennedy. Rhaid diolch yn benodol i'r BBC, fodd bynnag, am gofnodi ei lais yn y lle cyntaf. Drwy gyflawni hynny, er mai cael a chael fu hi o ran dod o hyd iddo mewn pryd, fe achubwyd ganddi haenen gyfoethog o etifeddiaeth ddiwylliannol ei gyfnod ef.

* * *

Cyn manylu ar Ben Bach y canwr, gwell cynnig bywgraffiad a phortread cryno o'r person.

Fel Benjamin Phillips y'i bedyddiwyd ar ôl iddo gael ei eni yn 1871 yn Abercastell, hafan ryw filltir o Dre-fin a dwy o bentref Mathri. Ymddengys mai yn y lle olaf yr aeth i'r ysgol, ond capel y Bedyddwyr yn Nhre-fin a fynychai gyda'i deulu. Yr oedd yn un o saith o blant. I'r môr, fel eu tad o'u blaenau, yr hwyliodd dau o'i frodyr, ond ei ddewis ef ei hunan fu aros ar dir sych (hyn efallai oherwydd i un brawd iddo foddi). I gychwyn bu'n was bach yn ardal Fathri, ac erbyn cyrraedd dwy ar hugain oed yr oedd wedi sicrhau gwaith yn lleol ym mhlasty bychan Lochtrwrffin, lle safodd wedyn ar hyd ei oes hir. Yno gwasanaethodd deulu'r Thomasiaid, yn was, garddwr a choetsmon, ac fel Ben Bach Lochtrwrffin – a rhoi iddo ei deit llawn! – y daethpwyd i'w adnabod drwy'r rhanbarth, o Abergwaun hyd Dyddewi.

Priododd pan oedd o gwmpas deg ar hugain oed, a ganed i'w wraig ac yntau un mab, James (Jim), ond trychineb personol fu colli ei gymar yn lled gynnar. O ganlyniad, yn Lochtrwrffin yr ymgartrefodd Ben, i bob pwrpas, am hanner canrif a rhagor, ac ni chrwydrodd fawr ddim erioed y tu hwnt i'w gynefin, er iddo ymweld â Chaerdydd (fwy nag unwaith), Y Barri,



Gweision a morynion Lochtwrffin tuag 1908, gyda Ben Bach yn y canol

Aberdâr, a hyd yn oed Fryste un tro. Yn niwedd oes, a'i iechyd yn dirywio, cafodd loches ar aelwyd Jim a'i wraig Elizabeth yn Nhyddewi, ac yno yn eu gofal hwy, yn 31 Goat Street, y bu farw. Claddwyd ef ym mynwent y ddinas.

I ddod yn nes ato, beth am ei ddiddordebau a'i hoffterau? Gyda golwg ar ei waith bob dydd, mae'n amlwg fod rhai agweddau a oedd wrth fodd ei galon. Treuliai oriau arbennig o hapus yn yr ardd a'r tŷ gwydr ac o gwmpas y fferm yn Lochtwrffin, gan ennill cryn bleser wrth gyflawni'r gorchwylion o ofalu am flodau a phlanhigion, o gadw gwenyn, ac o dendio ar anifeiliaid (yr oedd yn eithriadol hoff o geffylau, cŵn a chathod). Yn ystod oriau hamdden yr oedd yn ei elfen yn cymdeithasu â phobl. Galwai'n gyson yn nhai cymdogion a chydabod ar draws cylch cymharol eang; cymerai ran gyda pharodrwydd yng ngweithgareddau'r capel – mynychodd addoldy'r Bedyddwyr yng Nghroes-goch yn ffyddlon ar hyd y blynyddoedd, a dywedwyd bod ganddo dipyn o ddawn ar ei liniau yno – ac, yn wahanol i sawl capelwr arall, yr oedd yr un mor gartrefol yn nhai tafarn ei ardal (y Croes-goch Inn a'r Atramont Arms gerllaw, y Farmers Arms ym Mathri, y Square and Compass tua dwy filltir i ffwrdd, y Ship yn Nhre-fin, a'r Sloop ym Mhorth-gain, heb anghofio am y Royal Oak ar sgwâr Abergwaun yn wythnosol bob diwrnod 'farced'). Cyfunai, felly, Fuchedd A a Buchedd B yn gyfforddus hollol. A rhan gydnabyddedig o'i gyfeillachu hawdd – ac, yn aml, sylfaen a chyfrwng ei gymdeithasu – ydoedd ei ganu. Cyfrannai'n selog yng nghaniadaeth y Cysegr; bu'n aelod o fwy nag un côr lleol, ac, wrth gwrs, yr oedd ganddo ei stôr bersonol o ganeuon i'w cyflwyno yn ôl y galw.

O ran corffolaeth, cyfatebai i'w lysenw, heb fod fawr uwchlaw pum troedfedd o daldra – ond bod ganddo, wrth ddilyn ffasiwn ei gyfnod, fwstashaen a wnâ'n iawn am ei brinder maintioli. Ac efallai fod byrder ei goesau yn un rheswm paham mai ar gefn ei feic y gwelid Ben fel arfer yn tramwyo'r ardal ar benwythnos neu gyda'r hwyr. (Erbyn meddwl, anodd fyddai ei weld ar ôl iddi dywyllu, gan nad oedd fyth ar y beic hwnnw unrhyw olau – fel y sylwodd plisman Mathri lawer tro, yn ôl yr hanes.)

Am ei bersonoliaeth a'i gymeriad, yr oedd tystiolaethau'r sawl a'i adnabu yn gwbl gyson – ac yn glodforus, yn ddiwahân. Yng ngolwg ei gyd-ardalwyr yn gyffredinol, yr oedd Ben Bach gyda'r anwylaf o blant dynion, yn ŵr addfwyn, cyfeillgar a charedig. Cofir amdano fel un hamddenol a digynnwrf ei agwedd a'i ffordd. Ond perthynai iddo, serch hynny, hiwmor bywiog. Gwyddai pawb am yr elfen ddireidus ynddo, a'i barodrwydd i dynnu coes. Ar yr un pryd yr oedd iddo ei ochr ddwys a phruddglwyfus, ac ymddengys iddo ddiodef mwy nag un pwl cas o iselder ysbryd ar draws y blynyddoedd.

* * *

Ben Bach y canwr gwerin fel y cyfryw yw canolbwynt ein diddordeb yn y fan hon. Ac mewn gwirionedd mi fydd yr hyn sy'n dilyn yn adlewyrchu'r bras ddatblygiad a welodd astudiaethau llen gwerin, gan gynnwys canu gwerin, yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. O fewn i'r cyfnod hwnnw, symud a wnaeth y pwyslais ymysg ymchwilwyr oddi ar y testun i gyfeiriad y cyd-destun a thrwodd wedyn at y perfformiad. Rhwir sylw yn awr, felly, yn gyntaf i ganeuon Ben Bach, yna i'w cefndir, ac yn olaf i'w ddull ef o'u cyflwyno.

1. Y Caneuon

A chadw ar gof fod storfa Ben Bach hefyd yn cwmpasu – fel y gellid ei ddisgwyl – emynau, rhai darnau corawl, ambell unawd (gyngherddol/eisteddfodol), ynghyd â chaneuon poblogaidd (yn Gymraeg a Saesneg), edrychwn yn benodol ar y corff o eitemau a recordiwyd ganddo i'r BBC.

Caneuon oedd y rhain a gyflwynai ef fel arfer ar ei ben ei hunan. Yn wir, yr argraff a gafwyd o holi pobl a gofiai amdano oedd mai ganddo ef yn unig y clywid amryw ohonynt, a bod trigolion ei fro – erbyn tua chanol y ganrif, beth bynnag – yn synio amdanynt fel 'caneuon Ben'. Yn ychwanegol at y deunaw eitem a recordiodd i'r Gorfforaeth, clywyd cyfeirio at sawl un arall, a'r tebygolrwydd yw iddo rywdro feddu ar *repertoire* helaethach o dipyn. A hithau mor hwyr y dydd arno erbyn cofnodi ei ganeuon, mae'n bur debyg iddo fethu â galw rhai i gof o gwbl, ei fod wedi colli gafael ar eiriau amryw eraill (sydd â phenillion yn eisiau), fod gofynion cerddorol ambell alaw yn raddol wedi mynd yn drech nag ef, heb sôn am iddo gefnu o ddewis ar rai eitemau ar draws ei gyfnod hirfaith. Yn y pen draw, pwy all ddweud? Yn y cyswllt hwn, fodd bynnag, perthnasol yw nodi am y pymtheg enghraifft Gymraeg a ganodd i'r BBC fod ymron 50 y cant ohonynt yn debygol o fod yn brin o eiriau penillion

neu rannau. Tybir mai diffyg cof yr hen ganwr, yn anad dim, a barodd hyn – er ei bod hefyd yn bosibilrwydd weithiau mai eitem anghyflawn a dderbyniais Ben yn y lle cyntaf.

Heb geisio treiddio'n ddwfn o gwbl, mae modd cynnig bras ddadansoddiad ar y corff o ddeunaw cân drwy eu dosbarthu'n syml rhwng llon neu leddf, ysgafn neu drwm, digrif neu ddifrif, chwareus neu ddwys. Y patrwm a amlygir yw fod yr eitemau yn pwyso'n lled gadarn tua'r naill begwn neu'r llall, a hefyd yn rhannu bron yn gyfartal, gyda deng eitem yn ysgafn ac wyth yn drymach eu natur. I'w clustnodi'n unigol, i'r categori cyntaf y syrth 'Bwmba', 'Fy morwn ffein i', 'Hen ladi fowr benfelen', 'O, Mari, Mari, coda', 'Pentre Mathri lân', 'Y deuddeg dydd o'r Gwyliau', 'Yr hen ddyd', 'Yr hogen goch', 'The Wild Man of Borneo', a 'When Paddy was on the railway', tra mai i'r ail ddosbarth y perthyn 'Ar lan y môr', 'Bugeiles y(r) Wyddfa', 'Cân y bardd wrth farw', 'Cân y Patriarchiaid', 'Hen ffon fy nain', 'O'r gwcw, O'r gwcw', 'Y ferch o blwy Penderyn', a 'Sweet William'.

Ni ellir llai na sylwi bod cysgod marwolaeth yn syrthio dros y mwyafrif o'r eitemau olaf hyn, ond, o gymryd y *repertoire* hon yn ei chyfanrwydd, y thema fwyaf hollbresennol yw cydberthynas mab a merch. Fel arfer, o enau'r mab y daw'r datganiad, ond bod y driniaeth ar y thema yn amrywio, a hyn gan ymrannu'n weddol gydradd rhwng (a) gynnal nodyn cellweirus neu (b) fynegi hiraeth (am anwylyd coll).

Fel y cyflewyr eisoes, caneuon sbort yw cyfran helaeth o'r rhain, a thra diddorol mewn ambell un ohonynt yw'r modd y defnyddir rhyw ddyfais fframwaith neu fformat i hyrwyddo'r digrifwch (gan gynyddu'r diddordeb, yn y broses). Drwy fabwysiadu ffurf deialog y gweithredir hyn yn 'Fy morwn ffein i' ac 'Yr hen ddyd'; drwy ffurf y gân gynyddol yn 'Y deuddeg dydd o'r Gwyliau' a 'The Wild Man of Borneo' (lle mae ceisio datganu rhannau ar un anadl wedi'i fwriadu i greu gorchest sy'n troi yn fwy a mwy anodd), a thrwy ffurf dilyniant rhifol yn 'When Paddy was on the railway'.

Cyn symud ymlaen mae'n werth nodi pwynt neu ddau ymhellach ynglŷn â geiriau ei ganeuon. Yn eu crefft neu dechneg fydryddol, traddodiad y canu rhydd a amlygir ynddynt drwodd a thro. Ni ddefnyddiant addurniadau seiniol na strwythurau sangiadol y canu caeth. Er bod dwy ohonynt – 'Cân y bardd wrth farw' a 'Bugeiles y(r) Wyddfa' – rywfaint yn fwy ymwybodol farddonol eu mynegiant na'r gweddill, yr hyn a geir ynddynt at ei gilydd yw cysrawennau naturiol a geirfa gyfarwydd (hyn weithiau ar lefel leol neu ranbarthol). O ran ieithwedd maent yn amrywio rhwng y llenyddol a'r llafar, gan weithiau gyfuno'r naill gywair a'r llall.

2. Y Cyd-destun

O ba le, a sut, y daeth y caneuon hyn i afael Ben Bach? – y rhain a oedd, gan amlaf, ar wahân i ganiadaeth yr addoldai, yr eisteddfod, y gyngerdd (yn ei gwisg 'fawreddog', chwedl y poster) a'r ysgol ddyddiol; sef haen o eitemau a oedd at ei gilydd yn llai sefydliadol.

O graffu ar eiriau'r deunaw cân fe ganfyddir – er nad cerdd newyddiadurol mo'r un ohonynt fel mae'n digwydd – fod mwyafrif yr eitemau Cymraeg yn eu plith yn rhai a gawsai eu hargraffu a'u lledaenu ar daflenni baledi. O fewn i ddegawdau cynnar Ben Bach, wrth gwrs, yr oedd yr hen faledwyr crwydrol yn dal i fynychu ffair a marchnad, dan ganu a gwerthu'r fath gynnyrch, gan sicrhau iddo gylchrediad cyffredinol ymysg siaradwyr ein hiaith frodorol.

Mae'n wir fod yma ddyrmaid – a dyrmaid bach yn unig – sy'n fwy llafar eu mynegiant na'r rhelyw. O anwybyddu 'Pentre Mathri lân' am y tro, y rhain yw 'Hen ladi fowr benfelen', 'Fy morwn ffein i' a 'Bwmba'. Ond efallai fod y ddwy gyntaf hyn hefyd wedi eu hargraffu ryw dro – gwyddys, beth bynnag, i'w cynseiliau tebygol yn Saesneg, sef 'Buxom lass' a 'Dabbling in the dew' ('Where are you going, my pretty fair maid?'), ymddangos ar daflenni yr ochr draw i Glawdd Offa. Tybed, felly, ai deillio oddi ar bapur a wnaethai 'Hen ladi fowr benfelen' a 'Fy morwn ffein i' hwythau, ond iddynt lafareiddio rhywfaint wrth gario o dafod i dafod. Ac mae'n werth gofyn i ba raddau y bu cynaniad tafodieithol Ben Bach ei hunan yn ffactor yn y broses. (A hyd yn oed pe na bai'r rhain wedi ymddangos mewn *print* fel y cyfryw, rhaid caniatáu ei briod le hefyd i wyddor *ysgrifennu* – a allai hithau lafareiddio ambell beth.) Swm a sylwedd hyn oll yw ei bod yn anodd honni gydag unrhyw hyder fod geiriau hyd yn oed yr ychydig enghreifftiau hyn wedi tarddu (yn ogystal â chael eu trosglwyddo) ar lafar.

Cwestiwn perthnasol, ond dyrus, yw pa un a gododd Ben eiriau'r rhain yn uniongyrchol oddi ar bapur ynteu drwy eu clywed ar lafar gwlad, wrth iddynt gael eu canu gan rywrai eraill a'u dysgasai ar gof. Amhosibl bellach gynnig ateb yn y mwyafrif mawr o achosion – ac efallai, wrth gwrs, i'r 'llyfr' a'r llafar *gyda* gyfrannu yn y broses.

Mater arall o ddiddordeb yw ceisio pennu dyddiadau'r cerddi. Cyfeiriwyd eisoes at absenoldeb eitemau newyddiadurol yn eu mysg, sef eitemau a fuasai ynghlwm wrth ddigwyddiadau hanesyddol ac yn debyg o nodi dyddiad penodol yn (neu wrth) eu teitlau. Y gwirionedd siomedig am y deunaw yw nad oes ond nifer fechan iawn y gellir eu dyddio, a hynny wedyn ond yn fras. Mae'n bosibl fod 'Y ferch o blwy Penderyn' yn deillio o tua chanol y ddeunawfed ganrif, a gwyddys mai 1777?–1859 oedd cwmrawd bywyd Daniel Jones 'Daniel Sgubor' a luniodd y ffurf wreiddiol ar 'O'r gwcw, O'r gwcw'. Cymerir mai yn ystod ail chwarter y ganrif ddilynol yr ysgrifennwyd 'Cân y bardd wrth farw' gan Thomas Lloyd Jones 'Gwenffrwd' (1810–34), ac ymddengys mai i ddegawdau olaf yr un ganrif y perthyn 'Bugeiles y(r) Wyddfa' a 'Hen ffon fy nain'. Gogyfer â'r gweddill – heblaw am 'Pentre Mathri lân', a gaiff sylw wedi hyn – ni lwyddwyd i briodoli cyfnod yn fanwl.

Am *alawon* yr eitemau Cymraeg – ac eithrio rhai tair ohonynt ('Bugeiles y(r) Wyddfa', 'Hen ffon fy nain' a 'Cân y bardd wrth farw') a oedd wedi eu cyhoeddi yn enw cyfansoddwyr Cymreig cydnabyddedig – gellir dweud eu bod yn fersiynau ar donau a fodolai ar lafar gwlad. Gan fod enghreifftiau cymharol ar gael i'w dadansoddi, fe welir nad ym mhen y canwr hwn

ei hunan y cychwynasant, er ei bod yn dra thebyg iddo yntau gyfrannu ambell elfen gerddorol ynddynt. (Ac ymddengys yn achos yr unawdau argraffedig hefyd fod rhai nodau neu gymalau yn wahanol yn natganiadau Ben.)

Rhwng popeth, er i lawer ohonynt fagu nodweddion rhanbarthol – ac efallai bersonol, hyd yn oed – erbyn cael eu canu gan Ben, perthyn y caneuon hyn yn y pen draw i waddol yr oedd iddo gynt gylchrediad ehangach.

A dychwelyd at y geiriau, ymhle yn ddaearyddol y tarddodd ei ganeuon? Mae 'Bwmba' ag ôl tafodiaith y de-orllewin yn drwm arni, a gwyddom fod 'O'r gwcw, O'r gwcw' – er ei bod mewn rhediad llawnach a lled wahanol – wedi gweld golau dydd yn ardal Llandysul. Ond o barthau tipyn pellach i ffwrdd y deilliodd rhai o'r eitemau a genid ganddo, fel 'Bugeiles y(r) Wyddfa' (gwaith John Jones 'Eos Bradwen', a drigai ar y pryd yn Llanelwly), 'Hen ffon fy nain' (eiddo Thomas D. Thomas 'Glan Padarn', o gylch Llanrug, yn Arfon) a 'Cân y bardd wrth farw' (gan Thomas Lloyd Jones 'Gwenffrwd', a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes fer yn Nhreffynnon ac yna Ddinbych). Fe sylwir mai arlliw gogleddol, wedyn, sydd ar fwy nag unpeth ym mynegiant 'Yr hogen goch' (fel y'i gwelir yn ei ffurf gyflawn). Ac fe'n harweinig at ffin ddeheuol Brycheiniog gan bennawd a chynnwys 'Y ferch o blwy Penderyn'.

Anhysbys, fodd bynnag, yw awduraeth a tharddiad daearyddol y rhan fwyaf o ganeuon Ben. Y siawns yw mai eu cludo i mewn i'w gynefin ef a gawsai'r mwyafrif o'i eitemau, naill ai ar bapur neu ar dafod leferydd, neu drwy'r ddau gyfrwng ynghyd. Yn y broses drosglwyddol hon, diau fod ei rhan allweddol i ffair Fathri, a oedd gynt yn un o ffeiriau pwysicaf y de-orllewin. Ond rhaid cofio ar yr un pryd nad y baledwyr pen ffair yn unig a gludai ganeuon ar draws gwlad. Yr oedd hefyd amryw drosglwyddwyr eraill, rhai nad oeddent yn ddatgeiniaid wrth alwedigaeth fel y cyfryw. Dyna, er enghraifft, y porthmyn – a'u hen weithgarwch tua chymdogaeth Ben Bach, er cyn ei gyfnod ef, yn cael ei goffáu yn enw'r Drovers Arms yng Nghasmâl, dim ond ychydig filltiroedd i'r dwyrain o Fathri. Wedyn dyna'r lliaws gweithwyr lleol a heidiai'n dymhorol tua de-ddwyrain y wlad, pa un ai i gynaeafu cnydau ym mrastir Bro Morgannwg, a hyd yn oed dros y ffin yn sir Henffordd, ynteu – o fewn i oes Ben ei hunan – i sicrhau gwell cyflogau mewn gweithfeydd diwydiannol yng nghymoedd Morgannwg a Mynwy yn enwedig. Patrwm llaweroedd o'r rhain, fel y gwyddys, oedd rhannu eu blwyddyn rhwng gorllewin a dwyrain i ateb gofynion cynaeafol eu broydd hwy eu hunain. A sylwer bod yr holl fudo prysur hwn yn dwyn ynghyd weithwyr crwydrol o wahanol ranbarthau Cymraeg, yn ogystal â'u cyflwyno i Gymry di-Gymraeg, ynghyd â Saeson a Gwyddelod. Un o ganlyniadau eu cydgymdeithasu, mae'n sicr, oedd croesffrwythlonni ar eu traddodiadau canu.

O ran mynd a dod gan bobl, cam pwysig fu dyfodiad y rheilffordd. Mor gynnar ag 1845 neu'n fuan wedyn proffwydodd y baledwr Levi Gibbon, yn un o'i gerddi enwog i'r 'Railroad Newydd',

Bydd Abergwaun ar hyn o dro
Yn dweud '*To London we will go!*...
A merched Mathri, yn ddi-lai,
Gaiff brofi cusan Dic a Dai;...

Llusgodd hanner canrif heibio, fodd bynnag, cyn i'r rheilffordd gyrraedd Treletert (yn 1895), ac yn 1906 yr agorwyd ei rhan olaf drwodd at harbwr newydd Abergwaun (a Ben Bach erbyn hynny tua 35 oed). Ond yn y rhan hon o sir Benfro bodolai cyfrwng teithiol arall, un llawer iawn cynharach, sef y môr. Ers cenedlaethau fe fuasai cyswllt agos rhwng hafnau'r arfordir lleol nid yn unig â phorthladdoedd glannau Cymru, yn fawrion ac yn fân, ond hefyd yn rheolaidd â chyrchfannau eraill. Ebe E. Llwyd Williams, yn *Cruydrô Sir Benfro 1*, am fan geni Ben Bach, er enghraifft:

Bu Abercastell yn borthladd bach prysur iawn ar un adeg, ac enw siop y pentref oedd y 'Bristol Trader.' Gwelwyd llongau bychain yn mynd a dod i'r lle hwn yn gyson hyd at y flwyddyn 1936, ... O'r aber hwn y cychwynnai bechgyn y fro ar eu prentisiaeth forwrol gan hwylio i Gaerdydd, Bryste a Bideford, cyn mentro i'r llongau mwy 'rownd yr Horn'. (t. 50)

O blith y caneuon a restrwyd, am dair yn unig y mae cyfrif gan bwy yn hollol y cawsai Ben hwynt yn y lle cyntaf – a'r dystiolaeth arwyddocaol yw mai o'r tu allan i'w fro ef y daeth pob un o'r tair hyn iddo. Clywodd 'Yr hen ddyn' – yn cael ei chanu ar batrwm bob yn ail – gan bâr o gantorion crwydrol a'i perfformiodd yn ffair Fathri; dysgodd 'Sweet William' gan un o'i ddau frawd a fu ar y môr, a chododd drydedd cân, ac yntau'n ddim ond plentyn, oddi wrth ryw gapten a lywiodd ei long i hafan Abercastell.

Gyda golwg ar fewnforio caneuon i'r patshyn o fewn degawd neu ddau i gyfnod geni Ben Bach, dadlennol eto yw sylw E. Llwyd Williams wrth gyfeirio at chwarelly llechi (a gwenithfaen?) Abereiddi a Phorth-gain tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg: 'bu ugeiniau o bobl Llanberis, Bethesda a'r Felinheli yn gweithio yno.' (t. 47) Ar yr un pryd dyfynnir ganddo eiriau sylwedydd lleol a oedd wedi nodi: 'bod cannoedd yn gweithio yma, ac ar brynhawn Sadwrn y tâl yr oedd y Gogleddwyr a'r Gwyddelod yn lluosocach yng Nghroes-goch na'r Deheuwy'r'. (t. 47)

* * *

Ar ôl i Ben Bach ddewis derbyn caneuon penodol i'w gronfa, ymha leoedd y canai yntau hwy wedyn, ar ba achlysuron y gwnâi hynny, ac i bwy y'u cyflwynai?

Yr argraff gyffredinol a geir yw ei fod yn agor ei big i byncio ymhobman bron. Ymddengys fod ei fannau canu yn dra amrywiol, gan gynrychioli'r ffurfiol (o fewn termau lleol) a'r

anffurfiol, a bod *genres* ei raglen hefyd, o'r herwydd, yn fwy cymysgryw nag eiddo perfformwyr eraill. Cyfeiriwyd eisoes at ei ymwneud cerddorol – dan ganu (neu yn hytrach gydganu) darnau o fath gwahanol – mewn capel neu eisteddfod leol. Ar lefel lai dyrchafol cymerai ran hefyd yn y cyrddau cystadleuol bychain a ddygai amryfal enwau, yr 'eisteddfod ar y pryd', y '*penny reading*' neu'r 'cwrdd pishys'. Ac yr oedd cryn alw am ei wasanaeth mewn 'gwleddoedd' priodas.

O dan amgylchiadau llai strwythuredig wedyn yr oedd wrth ei fodd yn taro cân yng nghartrefi ei gymdogion ac aelwydydd tafarndai lleol fel ei gilydd. Ac o fewn i frawdoliaeth y gweision ffermydd – er efallai fod ei orchwylion yn Lochtrwffyn yn ei osod mewn categori braidd yn arbennig – mae'n siŵr iddo yn ei dro gyfrannu ei siâr at ddifyrrwch y llofft stabal.

Wedi nodi hyn i gyd, fodd bynnag, ei lwyfan pwysicaf oll, yn ôl pob golwg, fu cyngerddau'r mân bentrefi yn ei ran ef o ogledd y sir, sef y 'concerts' ysgafn a gynhelid yn achlysurol yng Nghroes-goch, Mathri, Tre-fin, Llanrhian neu Lan-lwy. Gan amlaf, cartref y cyfryw gonserts oedd yr ysgol bentref neu festri rhyw gapel, a gellir dadlau mai ynddynt hwy y cafodd Ben Bach ei brif sianel gyhoeddus fel canwr. (Gymaint fu ei enwogrwydd yn ei batshyn fel y derbyniai ambell wahoddiad i ganu hefyd y tu hwnt i'w gynefin agosaf, mewn mannau mor gsmopolitaidd ag Abergwaun, Tyddewi neu Solfach!)

Trwy gyfrwng y concerts hyn yn arbennig, estynnwyd i Ben Bach y cyfle i gyrraedd clust cynulleidfahangach. Gwahoddi'r tŷ tafarn a'r safle cyngerdd wrandawyr lled wahanol i'w gilydd. Oedolion yn unig, a gwywod yn bennaf, a fynychai'r cyntaf, tra bod yr ail yn derbyn cynulleidfahyddai'n fwy agored o ran rhyw ac oed. A gellir tybio bod y cyntaf hefyd yn debycach o arddel yr iaith fain. Ond i ba raddau y ceisiai Ben addasu ei gyflwyniadau yn ôl mangre ei ganu? Cân Saesneg, fe gofir, a wnaeth argraff mor ddofn ar John Harries ar aelwyd y Sloop ym Mhorth-gain. Ond ambell dro fe fyddai dewis Ben rywfaint yn fwy annisgwyl – er enghraifft, ni feddyliai ddwywaith cyn canu eitem gomig fel 'The Wild Man of Borneo' mewn festri. Ac yr oedd ganddo hefyd un neu ddwy eitem fwy coch na'i gilydd. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd, fodd bynnag, yr oedd yn berffaith hapus i daro 'Hen ladi fowr benfelen', dyweder, yn *Schoolroom* Mathri gerbron cynulleidfahgymysg, yn wŷr a gwragedd, yn oedolion a phlant. Yn amlwg, nid oedd parchusrwydd oes Victoria wedi ei lethu ef o gwbl – ac yr oedd y gynulleidfahleol hithau'n barod i dderbyn y sefyllfa, a hynny 'gan law *Ben odd e*'. Caniateid iddo ei le fel cymeriad unigryw a gâi ymestyn ffiniau confensiwn a chwaeth.


3. Y Perfformiad

Yn y cyswllt hwn, y peth cyntaf i'w bwysleisio am Ben Bach fel cyflwynydd caneuon yw ei ragoriaeth fel cynheiliad ar y traddodiad o ganu'n ddigyfeiliant (traddodiad sydd, wrth gwrs, fywyfwy ar drai yn ein mysg ers cenedlaethau).

Wrth ystyried pa fath o ganwr ydoedd, fe ddylid hefyd i gychwyn gadw ar gof mai cofnod yw recordiadau'r BBC o ganu gan hen ŵr. (Yn wyneb hyn aethpwyd ati i gyf-weld nifer o bobl a'i clywsai o fewn i gyfnod cynharach yn ogystal.)

Yr oedd ganddo lais tenor persain; llais ysgafn, heb iddo fawr o gryfder, ac un meddal a mwyn ei ansawdd. Ym marn Emrys Cleaver (t. 8), 'Mi fuasai'r *Professor of Singing* yn ei alw fe yn "white voice", un heb gyfoeth, heb ddigon o leisio' (nid bod hyn ynddo ei hunan wedi rhwystro Emrys rhag cyfeirio at y canwr hwn fel 'bendigedig' o ganwr gwerin). Cymharol dawel, mae'n wir, ydoedd y llais, un a oedd yn fwyaf addas ar gyfer cynulleidfa gyfyng – megis un mewn bar tafarn, dyweder. Hyd yn oed yng nghyfnod ei recordio yr oedd y llais hwn wedi aros yn fachgennaidd o ifanc ei sain. Ac yr oedd hefyd yn gwbl rydd o unrhyw *vibrato* – a'i gwnâi, wrth gwrs, yn llai tebyg i eiddo cynifer o gantorion clasurol. Yn y recordiadau daw weithiau'n ddigon amlwg fod ei fegin yn wanllyd, gan droi'r datganiad yn llafurus, ond pan fo Ben ar ei orau llwydda i ganu'n hamddenol a di-straen, a'r argraff a geir yw na fuasai ei arddull erioed yn un ymdrechus o ddramatig. Nid lleisiwr *con belto* mo Ben Bach o bell ffordd.

Traddodiadol werinol ydoedd ei arddull. O'i chyferbynnu â'r dull operatig – a ddaeth drwodd i'r llwyfan eisteddfodol a chyngherddol, fel y gwyddom – gellir nodi nad oedd ynddi yr un awgrym o arddangosfa leisiol. Cwbl absennol oedd y math o ddiweddglo theatrig a ddefnyddid i gymaint graddau gan Bob Tai'r Felin. Dichon i Ben Bach glustfeinio a



Ben Bach, dros ei bedwar ugain oed, yn Nhyddewi

gwerthfawrogi ambell Wyddel yn pyncio yn nhai tafarn ei ardal; os do, ni fabwysiadodd ddull addurnol y traddodiad *sean-nós* o gwbl. Ac er bod ganddo o leiaf ddwy eitem – ‘Y deuddeg dydd o’r Gwyliau’ a ‘The Wild Man of Borneo’ – yn cynrychioli dosbarth y caneuon gorchest, geiriol, yn fwy na cherddorol, ydoedd camp y rheini.

Ymddengys, mewn gwirionedd, mai ar eiriau’r caneuon y rhoddai ei feddwl yn bennaf, ac mai fel cerbyd neu gyfrwng ar eu cyfer hwy y syniai am yr alawon. Fel yn achos cymaint o’r hen gantorion gwerin gorau, y flaenoriaeth iddo yntau oedd ‘adrodd y stori’, gan gyfleu’r sefyllfa neu’r awyrgylch neu’r teimlad. Tuedd naturiol Ben Bach oedd gadael i’r geiriau siarad drostynt eu hunain. Ni liwiai’n ymwthgar arnynt, ond llwyddai i gyflwyno emosiwn y gân yn gynnil (gydag ambell lithren yn eithriadol o rymus ei heffaith). A ninnau yng ngwlad yr Eisteddfod, y pris anochel i’w dalu am ei gynildeb fu i ambell un honni bod ei ddull yn rhy ‘undonog’. Fy mhrofiad personol i, fodd bynnag, gyda phob gwrandawriad ychwanegol, fu canfod mwy a mwy o deimlad yn ei ganu. Daliai Emrys Cleaver yntau fod datganiadau Ben yn rhoi’r argraff ei fod yn canu o brofiad personol, a rhaid dweud bod rhyw agosatrwydd anghyffredin yn perthyn i’w gyflwyniadau.

Yn y fan hon, gwell peidio ag anghofio nodi hefyd fod modd i gyfraniadau Ben Bach yn y concerts lleol gynnwys mwy na chyflwyno’r gân. Fe allai’r perfformans cyflawn gynnig hefyd brolog ac epillog – a hyd yn oed ambell fonws annisgwyl yn ystod y gân!

I’r rhan fwyaf o’r dorf, eitem Ben a fyddai uchafbwynt y noson. Yn *Schoolroom* Mathri, wrth i’r rhaglen ddirwyn tua’i diwedd – a Ben, fel ambell un arall, erbyn hynny wedi cyrraedd o’r Farmers gerllaw – yr oedd yn amser gweithredu egwyddor ‘*popular demand*’ a chynnal y ddefodaeth fer o ofyn i Ben ddod ymlaen o’r cefn i’r llwyfan. Yntau wedyn – dan esgus, wrth gwrs – yn hwyrfrydig i gydsynio, cyn ildio’n raslon ac yn ôl y disgwyl i’r ‘gwahoddiad’. A phan esgynnai’r Goliath i’r llwyfan, gan oedi yno i edrych o gwmpas heb ddweud yr un gair, lledai chwerthin drwy’r lle. A hyd yn oed ar ganol ei gân, hwyrach y taflai sylw digri at ryw gydnabod yn y neuadd; ac epillog yr ymddangosiad, yn ddi-ffael, oedd y galw brwd am encôr ganddo.

Câi Ben flas ar chwarae â’i gynulleidfa, gan greu sefyllfa ryngweithiol fyrlymus. Hawdd gwerthfawrogi pa mor fyw, mor glòs, oedd ei gydberthynas ef â’i wrandawyr. A hefyd, yn y cyswllt hwn, pa mor fanteisiol – cyn dyddiau meicroffon ac amp – oedd cael perfformio mewn neuadd fechan, sef yn llythrennol mewn sefyllfa agos-atoch-chi.

* * *

Yr oedd i weithgarwch Ben Bach un dimensiwn ychwanegol: canai hefyd – ar donau poblogaidd, eto – ambell gerdd o’i waith ef ei hunan. (Yn wir, ‘Ballad Composer’ oedd y prif bennawd uwchlaw un adroddiad papur newydd ar ei farwolaeth!)

O blith y cynnyrch personol hwn, un enghraifft yn unig a recordiwyd ganddo ar dâp, sef 'Pentre Mathri lân'. Ond yn 1963, bum mlynedd ar ôl ei farw, canwyd gan nai iddo ddwy gân arall o'i eiddo, 'Pentre Bach Tre-fin' a 'Capel Bach Tre-fin'. Fel mae'n digwydd, gwyddys hefyd am fodolaeth caneuon i bentrefi cyfagos Llan-lwy a Chasmâl, ynghyd â'r Mot (rywfaint ymhellach bant, yng nghysgod Maenclochog). Ni chofnodwyd awduraeth y tair olaf hyn, ond mae'n werth gofyn ai Ben a'u lluniodd hwythau. Tybed a oedd yn batrwm ganddo daro penillion o'r fath at ei gilydd ar gyfer unrhyw le y câi wahoddiad i ganu ynddo.

Anodd dweud pa mor gynhyrchiol yr ydoedd i'r cyfeiriad hwn. Hwyrach i amryw o'i greadigaethau personol ddiflannu; wedi'r cwbl, cyfyng – o ran ardal a chyfnod – a fyddai eu hapêl, mae'n lled amlwg. Y cwbl a geir yn ei ddwy gerdd i Fathri a Thre-fin fel ei gilydd yw enwi rhai o'r trigolion, gan daflu rhyw sylw byr amdanynt – fformiwla seml, ond un dra gogleisiol, serch hynny, i'r gwrandawyr lleol. Catalogau brysiog a gynigir, heb arwydd o esgyn at fyfyrion neu athronyddu. Yr unig fwriad yw ennyn ychydig o sbort, a hynny mewn cywair hollol ddiniwed nad yw'n cynnwys unrhyw elfen bigog. Topicaliaid cariadlon sydd yma.

Mae'r dyrnaid bach o'i gyfansoddiadau a gadwyd yn tystio bod Ben – er bod hynny ar lefel ddigon diawen ar y gorau – yn gweithredu fel 'bardd bro'. A'r hyn mae'r garfan hon o'i ganeuon – yn fwy na'r gweddill – yn ei danlinellu yw pwysigrwydd Ben Bach fel difyrwr o fewn i'w gymuned leol. Yn yr eitemau hyn o'i *repertoire*, a dweud y gwir, yr oedd y berthynas agosaf oll rhwng y canwr a'i gynulleidfa, a rhaid mesur eu grym a'u harwyddocâd yn nhermau eu milltir sgwâr a'u dwthwn hwy eu hunain.

O ran cynyddu apêl a pherthnasedd lleol, gwedd arall ar ei greadigrwydd oedd mabwysiadu'r ddyfais o gynnwys cyfeiriadaeth o'r fro yn lle geiriad gwreiddiol y gân. Dyna a wnâi yn achos y gerdd Saesneg gyfarwydd 'Down by mill stream ...'. *Party piece* ysgubol, mae'n debyg, oedd deuwad Benjamin Phillips y tenor a Hubert Wilcox y baswr, wrth iddi drawsblannu'r eitem o'i chefnidir mwy pellennig drwy agor gyda geiriau fel 'Down by Cnwc Haidd, where the water melons grow ...'! Dro arall y rhedriad fyddai 'Down by Groes-goch ...' neu 'Down by Tre-vine ...' – yr argraff a geir yw fod *water melons* yn ffynnu lle bynnag y canai Ben a Hubert eu deuwad! (Trueni o'r mwyaf, gyda llaw, nad oes ar gael recordiad o'r ddau yn ei hwylio hi – ar dôn 'Hen Frân Fawr Ddu' – gerbron cynulleidfa.)

Ofer ceisio honni i Ben Bach esgor ar unrhyw gerddi crefftus. Er i'w gynnrych dystio i glust at fydr a rhythm, fel bod y geiriau'n llifo'n esmwyth gyda'r alaw, nid yw ond rhigymu byrfyfyr a 'chanu talcen slip'. Elfennau amlwg ynddo, gyda llaw, yw ailadrodd. Gall hynny, wrth gwrs, fod yn ddyfais gelfyddydol fwriadol, ond teg ei gymryd yma fel arwydd o lacrydd cyfansoddi yn anad unpeth. Pur debyg mai ym mhen y 'bardd', yn hytrach nag ar bapur, y lluniwyd y cerddi hyn – fel mae'n digwydd, y mwyaf ailadroddgar oll yw 'Capel Bach Tre-fin', ac fe wyddys i honno gael ei bwrw at ei gilydd wrth iddo gerdded tua'r 'cwrdd pishys' yno ryw noson.

O ran y broses greu, dichon fod Ben yn *chlywed* ei linellau fel yr oedd yn eu bathu, ac mai dyna a barodd iddynt atseinio'r iaith lafar, sef tafodiaith ei gynefin, i gymaint graddau. Yn wir, mae eu hieithwedd mor gartrefol nes bod y cwbl yn rhedeg mor naturiol, bron, â sgwrs fach rhwng ffrindiau mynwesol.

Affraid aillbwysleisio nad rhywbeth ymwybodol artistig oedd y canu hwn. Nis bwriadwyd, wrth gwrs, fel canu celfyddydol, ond fel canu cymdeithasol, sef fel 'canu at iws'. Y cwlwm adnabod rhwng pobl a esgorodd arno, ac a'i gwnaeth hefyd yn ystyrion yn ei ddydd.

* * *

Wrth geisio pwyso a mesur gweithgarwch Ben Bach fel canwr gwerin, mae angen rhoi eu lle i amrywiol ystyriaethau.

I ddechrau, rhaid cofio mai anghyflawn – ac felly anghytbwys, o bosibl – yw'r dystiolaeth a gadwyd amdano, fel canwr ac fel person. Ac am y canu a'r caneuon a recordiwyd ganddo gellir addef nad oedd ef – yn ei henaint, beth bynnag – yn meddu ar y llais gorau yn y byd, nad oedd geiriau amryw o'i eitemau – erbyn eu recordio mor hwyr ganddo – yn llawn (a rhai ohonynt ymhell o fod felly), ac nad oedd ei gyfansoddiadau personol yn arddangos fawr o gelfyddyd. Wedi cydnabod hyn oll, fodd bynnag, crys Ben Bach yn ganwr sy'n teilyngu sylw am fwy nag un rheswm.

Ar y lefel fwyaf elfennol mae modd ei werthfawrogi ar sail ei ddatganiadau ynddynt eu hunain – mwynhau a pharchu'r rheini oherwydd ei ddull effeithiol o gyflwyno. Hanfod yr effeithiolrwydd oedd ei ddidwylledd, hynny yw, ei ddull uniongyrchol a chwbl ddirodes.

Ar lefel ehangach gellir dyrchafu Ben Bach ar ddau dir yn ychwanegol. Yn gyntaf, saif fel enghraifft dda o ganwr gwerin neu ganwr traddodiadol yn yr hen ystyr. Fel y ceisiwyd ei gyfleu, mae'n deg ei weld felly ar sail llawer ffactor: ei *repertoire* a'i chysylltiadau, rhan y broses lafar gwlad yn ei gelfyddyd, natur ei sefyllfaoedd a safleoedd canu, ei werthoedd a'i ddull fel cyflwynydd, ynghyd â'r arfer ganddo o ganu'n ddigyfeiliant. Ac, yn eilbeth, rhaid cydnabod ei bwysigrwydd fel canwr yn ei gymuned leol. O fewn i'w gyfnod yr oedd Ben yn cael ei ystyried, o Abergwaun hyd Dyddewi, fel canwr o fath gwahanol, un yr oedd ei *repertoire* a'i ddull wedi sicrhau iddo *niche* arbennig. Fel difyrwr yn ei gymdeithas yr oedd iddo ei le unigryw – a lle mwy anghyffredin fyth pan ystyrir ei fod yn fardd bro (i raddau cyfyng, wrth gwrs), ei fod yn y cyswllt hwn yn fardd/ddatgeinydd (a oedd felly'n adleisio traddodiad y baledwyr), a'i fod hefyd yn un a bontiai rhwng y llofft stabal, y dafarn, a'r consert ysgafn. Trwy gyfrwng yr olaf ymddengys iddo gyflwyno rhai defnyddiau yngŵydd cynulleidfah ehangach. At hyn oll – gan gymryd iddo ddechrau 'perfformio' tra'r oedd yn ifanc – yr oedd meithder ei weithgarwch cerddorol ynddo ei hunan yn nodedig (y tebygrwydd yw iddo gychwyn arni o fewn i oes Victoria).

Erbyn cyfnod yr Ail Ryfel Byd yr oedd Ben Bach, yn ôl pob golwg, yn dderyn eithaf prin ymhlith Cymry Cymraeg. Ac yn ein hanes diwylliannol, gellir mentro honni, mae i'w gyfraniad ef ei arwyddocâd y tu hwnt i ddalgylch Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi.

PRIF FFYNONELLAU

Recordiadau'r BBC (a luniwyd 17 Hydref 1952 ac 1 Medi 1953) o Ben Phillips, mewn copïau ar gadw yn Amgueddfa Werin Cymru. Diolch i Vincent H. Phillips, Pennaeth yr Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd, am drefnu i'r rhain ddod i gasgliad yr Amgueddfa.

Sgript y rhaglen radio *Ben Bach* a ddarlledwyd (yn Saesneg) gan y BBC drwy ei Gwasanaeth Cartref Cymreig ar 24 Chwefror 1953. Lluniwyd hi gan John Harries, a'i chyflwyno a'i chynhyrchu gan John Griffiths. Diolchir i BBC Cymru, Caerdydd, am gael gweld copi ohoni.

Ysgrifau coffa Saesneg am Ben Bach a ymddangosodd mewn papurau lleol yn Chwefror 1958. Yn eu plith ceir rhai gan John Harries (yn y *County Echo* fe dybir) a'r bardd Idwal Lloyd (yn y *Western Telegraph*). Copiwyd y toriadau ohonynt gan Amgueddfa Werin Cymru drwy garedigrwydd merch yng nghyfraith y canwr, sef Mrs Elizabeth Phillips, 52 Pen-y-garn, Tyddewi (Llsg. AWC 1882/1-2), a Hubert Wilcox, Maes-gwyn, Llan-non, ger Croes-goch (Llsg. AWC 1503/1-2).

Cyfweliadau personol, ar ran Amgueddfa Werin Cymru, gyda:

David Evans a'i briod, Hillside, Mathri (29 Chwefror 1968, Tâp AWC 1824)

Hannah Jane Miles a'i brawd David (Dai) Miles, Bryn Villa, Croes-goch (29 Chwefror 1968, Tâp AWC 1825)

Hubert Wileox, Maes-gwyn, Llan-non (4 Mawrth 1968, Tâp AWC 1829)

John Thomas, Felin, Abercastell (10 Awst ac 18 Medi 1963, Tâp AWC 609), nai i Ben Bach.

Sgwrs bersonol gyda Mrs Ruth Walters, 1 The Mount, Llandaf (gynt Ruth Price, cynhyrchydd, BBC Cymru, a hefyd yn frodor o ardal Fathri).

W. Emrys Cleaver, 'Canu a Chyflwyno'r Alaw Werin', *Canu Gwerin / Folk Song* (Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru), 3 (1980), tt. 5-10.

E. Llwyd Williams, *Cruwydro Sir Benfro*, 1 (Llandybïe, 1958).

Ceinion y Gân, gol. E. G. Millward (Llandysul, 1983).

Copiwyd y lluniau gan Amgueddfa Werin Cymru drwy garedigrwydd Mrs Kate Raymond, 6 Upper Terrace, Treletert (Llun 1: Gweision a morynion Lochtwrffin tuag 1908, gyda Ben Bach yn y canol), a Mrs Elizabeth Phillips, 52 Pen-y-garn, Tyddewi (Llun 2: Ben Bach, dros ei bedwar ugain oed, yn Nhyddewi). Diolchir i'r Amgueddfa hithau am ddarparu copïau ohonynt i'w cynnwys yn yr erthygl bresennol.

NODIADAU

Yn ystod y ddarlith a fu'n gysail i'r ysgrif uchod clywyd chwe enghraifft o ganu Ben Bach fel y'u cyhoeddwyd ar y gryno ddisg *O'R GWGW O'R GWGW* [*sic*]: *SONGS FROM PEMBROKESHIRE* (FTX-052) gan gwmni Peter a Beryl Kennedy, Folktrax, Caerloyw. (Diddymwyd y cwmni yn 2007 neu'n fuan wedyn, yn sgil marwolaethau'r ddau gyfarwyddwr.)

Ceir hefyd bedair o ganeuon Ben Bach yn y gyfrol *Folksongs of Britain and Ireland*, gol. Peter Kennedy (Llundain, 1975). Y bwriad gwreiddiol oedd cynnwys hefyd ddwy neu dair enghraifft o'i eitemau ef gyda'r ysgrif bresennol, ond ni weithredwyd felly yn y pen draw gan fod y sefyllfa hawlfraint yn ymddangos yn aneglur ar hyn o bryd.

Ni roddwyd sylw manwl uchod i'r caneuon Saesneg a recordiwyd gan Ben Bach, ond cystal cadarnhau yma fod y tair ohonynt, neu fersiynau arnynt, yn gyfarwydd gynt yn Lloegr, onid hefyd ymhellach i ffwrdd. Ac mae'n werth nodi am fersiwn Ben ar 'The Wild Man of Borneo' fod 'Dyn bach o Fangor yn dŵad i'r dre', sydd hefyd yn gân gynyddol, yn cael ei chanu ar yr un alaw – nid drwy gyd-ddigwyddiad, mae'n siŵr.

Diolch i Dafydd Saer am deipio'r ysgrif hon, ac i Alan Jones, Colyton, am dynnu'r llun ohonof.

BOB TAI'R FELIN

Dan Puw



Llan: Evan Dobson

Aeth tua 140 mlynedd heibio ers pan anwyd brawd bach i Mary, merch ddwyflwydd oed Cadwaladr ac Elizabeth Roberts, Tai'r Felin, Cwmtirmynach. Bedyddiwyd y bychan yn Robert. Credir i genedlaethau o'r teulu fod yn byw yn Nhai'r Felin, fferm ar Stad y Rhiwlas, rhyw chwarter milltir o'r A4212, ar fin y ffordd sy'n mynd am Gerrigydrudion. Pan oedd Cadwaladr a Betsi yn magu teulu, roedd yno gymuned fechan yn cynnwys gefail gof, melin flawd, pandy, a dau neu dri o fythynnod. Digon o gymdogion, yn llythrennol o fewn tafliad carreg, i fynd ar ofyn ei gilydd pan fyddai angen help gyda'r cynhaeaf, cylchu olwyn trol, codi grawn i'r odyn, neu unrhyw orchwyl arall a fyddai angen tipyn o fôn braich i fynd ynglŷn ag o.

Erbyn heddiw mae hyd yn oed olion yr hen felin, y mae llawer ohonom yn eu cofio, wedi eu clirio i wneud lle i ledur ffordd. Mae'r efail a'r pandy wedi hen ddiflannu – dim ond un bwthyn bach sydd wrth y lliadiart sy'n arwain at y fferm lle bu'r teulu cerddorol yn byw hyd bumdegau'r ganrif ddwytha.

Tybed pryd y trodd y Robert bach a anwyd ym 1870 i fod yn Bob Tai'r Felin? Pan ddechreuodd yn yr ysgol efallai? Anodd iawn i ni yn ein hoes ddigidol yw dychmygu sut yr oedd pethau pan agorodd ysgol newydd sbon Cwmtirmynach ddechrau Chwefror 1875. Lewis Lewis o'r Carneddi ger Bethesda oedd ei hathro cyntaf. Cymro Cymraeg mae'n siwr, wedi ei hyfforddi yn The Free Church Training College, Glasgow, ond ofnwn mai ychydig iawn o le a roddid i iaith y nefoedd yng Nghwmtirmynach fel mewn pob ysgol arall drwy Gymru yn y cyfnod yma. 'I found them almost all very backward, most of them never attended any school before,' a ysgrifennodd yn y llyfr lög wedi rhyw wythnos o ofalu am yr ysgol newydd. Yn ôl Bob Roberts ei hun roedd cosb am siarad Cymraeg, a does fawr o syndod fod y plant yn cael eu hystyried yn 'backward' os na ddeallent iaith y meistr. A phan ddown i lyfr lög yr ysgol eto gwelir mai'r farddoniaeth a ddysgid oedd pethau fel 'Gray's Elegy', 'We are Seven' (Wordsworth), a 'Mary's little lamb' (dysgu llinell bob nos!). Arlwy debyg oedd i'r cantorion – 'My own native land' (Lloegr mae'n siwr!), 'The foot traveller', a 'Waiting for the May'. Gwelir hefyd fod un o olynwyr Lewis Lewis wedi rhoi'r fath gurfa i un o'r disgyblion yr honnai ei fod yn anhydrin fel ag i dad y plentyn ei dynnu o'r ysgol.

O sylweddoli hyn i gyd, efallai'n wir mai canu ei brofiad yr oedd Bob Roberts drigain mlynedd a mwy yn ddiweddarach, pan diwniai:

Hen ysgolfeistr blin, ers talwm
Yn wir oedd Mr Green, ers talwm;
Ces gweir fu rioed ei bath
Â rhoden bron ddwy lath,
Am dorri barf ei gath, ers talwm.

Mae'n bur debyg fod seiniau'r iaith Gymraeg yn llawer mwy hyglyw yr ochr arall i'r ffordd, yn y capel. Yma eto, lai na milltir o Dai'r Felin i gyfeiriad Cerrigydrudion, yr oedd rhyw hanner dwsin o dai a adwaenid fel Glan yr afon gerllaw'r ysgol a'r capel. Yn wir, fel Glan yr afon y cyfeirid at yr ysgol a'r capel yn y cyfnod cynnar, ond wedi diflaniad y tai diflannodd yr enw – ar lafar beth bynnag – ond fe'i gwelir o hyd ar rai o fapiau cyfredol yr Arolwg Ordnans.

Mae'n debyg fod yma gapel ar y safle ynghynt, ond ym 1880 y codwyd y capel presennol ar gost o £1,100.00: tipyn o faich yn y dyddiau hynny pan oedd incwm ffermwyr yn bur isel, a holl amaethwyr y cwm eisiau hel digon o arian i dalu'r rhent i stiward Stad y Rhiwlas bob Calan Mai a Chalan Gaeaf. Beichus hefyd mae'n siwr oedd yr emynau a genid yn y cyfnod yma, ond o leiaf roedden nhw'n emynau Cymraeg! A bu teulu Tai'r Felin yn gefnogol i'r achos dros y cenedlaethau. Gwelwn fod Thomas Roberts Tai'r Felin yn flaenor ym 1850, dim sôn am Cadwaladr yn *Hanes Methodistiaeth Dwyrain Meirionnydd*, ond gwasanaethodd Bob fel blaenor a chodwr canu am flynyddoedd maith. Ac er bod cynulleidfaoedd heddiw yn llai, cedwir y capel mewn cyflwr arbennig o dda gan y ffyddloniaid. Mae'r ysgol, a ddisodlwyd gan Ysgol Bro Tryweryn, ers degawdau bellach yn neuadd at ddefnydd y gymuned, sy'n dal yn Gymraeg a Chymreig.

Os oedd yr hogyn dengmlwydd yn rhyfeddu at y capel anferth (iddo fo mae'n siwr) oedd yn cael ei adeiladu yn ymyl yr ysgol, roedd y prysurdeb oedd oddeutu'r Fron-goch tua'r un adeg yn fwy o ryfeddod fyth. Ugeiniau o ddynion diarth yn gosod rheilffordd o'r Bala i Flaenau Ffestiniog! A'r rhyfeddod o weld y trên cyntaf ym 1881 yn pwffian o'r orsaf heibio i'r Ddôl Hir a Thy'n Cornel i fyny i gyfeiriad Cwm Prysor. Yn dilyn agor y lein, codwyd tai gerllaw'r orsaf, a datblygodd y lle yn araf i fod yn bentre bach prysur Fron-goch. Prysurach nag unrhyw bentre yng Nghymru ar gyfnodau, oherwydd tua diwedd yr wythdegau cafodd sgweiar y Rhiwlas y weledigaeth o sefydlu gwaith chwisgi gerllaw'r orsaf, a gwelwyd yr enw Distillery Cottage ar dŷ yn y pentref newydd. Hefyd gwelir yn llyfr lög yr ysgol i Mr David Colville, *Manager of Whisky Works*, alw i mewn ar 24 Medi 1889 i drafod ei fwriad o anfon ei fab i ysgol Cwmtirmynach. Ymhen yr wythnos dechreuodd y disgybl newydd – yn hollol gartrefol mae'n siwr a sŵn ei famiaith ar wefusau'r athro, beth bynnag am ei gyd-ddisgyblion!

Tybed beth oedd barn arweinwyr y mudiad dirwest am y datblygiad yma ym mwynder Penllyn? Beth bynnag am hynny, roedd diwrnod o gario defnyddiau gyda cheffyl a throl i adeiladu'r gwaith chwisgi yn talu bron cystal ag wythnos o roi help llaw yn y felin, ac ychydig iawn o ffermwyr y cylch a wrthodai fargen felly. Gan fod Tai'r Felin yn un o'r ffermydd agosaf i'r safle fe fanteisiodd y llanc deunaw oed ar y cyfle i wneud ceiniog neu ddwy pan oedd pethau'n weddol dawl ar y tir. Clywais ddweud mai yn ystod y nos y byddai rhai o'r contractwyr yn cario – rhag tynnu gwag y dirwestwyr mae'n debyg! Mae'n ddiamau fod y tâl yn well na'r hyn a gawsai pan oedd yn iau am gario yn ôl ac ymlaen o'r felin gyda'i fules a'r drol fach.

Mae amryw wedi cynnig rhesymau pam na lwyddodd y gwaith chwisgi, ond awn ni ddim ar ôl hynny, digon yw dweud na ddaeth y fenter â ffortiwn i sgweiar y Rhiwlas. Wedi blynyddoedd o segurdd cwymerwyd y lle drosodd gan Lywodraeth Prydain fel gwersyll carcharorion y Rhyfel Mawr. Fel y dengys y maen tairieithog sydd ar fin y briffordd, yma hefyd y carcharwyd tua deunaw cant o wrthryfelwyr Gwyddelig ym 1917. Yma, wrth nôl sbarion bwyd i borthi'r moch, y daeth Bob Roberts i adnabod rhai o'r bobl enwog a fu'n gaeth yno. Tybed a glywodd rai o alawon Iwerddon yn cael eu canu yno?

Onid yn ei flynyddoedd cynnar, er mor hanfodol oedd gwneud ceiniog neu ddwy 'i gadw corff ac enaid ynghyd' roedd pethau eraill yn mynd â diddordeb hogyn bach Tai'r Felin. Y pwysicaf o'r rheini yn ddiamau oedd canu. Clywais ddweud bod ei fam yn dod o deulu cerddorol iawn. Os oedd cerddoriaeth ar yr aelwyd, naturiol oedd i'r hogyn fod wedi cael ei suo i gysgu yn swm rhai o ganeuon yr oes, ac efallai yn swm caneuon yr oes gynt. Dyma gyfnod pan ymwelai cymdogion â'i gilydd ar fin nos am sgwrs a chân. (Ac os goddefwch bwt personol, fe wn i o brofiad peth mor hyfryd yw mynd i gysgu yn swm rhyw ganu cymdeithasol ar yr aelwyd gartref.) Dyma gyfnod cynnar yr eisteddfodau lleol, ac roedd amryw ohonynt yng nghylch Penllyn, a'r *penny readings*, rhagflaenwyr y Cyfarfodydd Cystadleuol, y cyfan yn llwyfan ardderchog i bawb oedd yn berchen ar dipyn o ddawn gael eu traed danynt.

Efallai mai rhamantu yr wyf wrth gredu bod y Sipsiwn wedi bod yn rhywfaint o ddylanwad ar ochr werinol ei gynhyrsgaeth gerddorol, ond mae'n wybyddus y byddai Teulu Abram Wood yn aros yn achlysurol ar fin y ffordd nid nepell o Dai'r Felin, ac y byddai cyrchu at y 'garafan goch' yn arferiad gan lawer o'r ardalwyr i glywed a gweld y teulu yn mynd trwy eu pethau. Erbyn heddiw fedrwn ni ddim ond dyfalu!

Ni fedrwn ddim ond dyfalu ychwaith sut lais oedd gan y canwr ifanc o Dai'r Felin cyn iddo dorri. Fel grisial mae'n siwr, oherwydd adroddir y byddai'n ennill mewn cystadleuaeth unawd dan bymtheg oed 'a lot o ferched yn trio'. Cymaint o feddwl oedd gan rai o gerddorion y cyfnod ohono fel y ceisiwyd ei hudo i gael hyfforddiant pellach fel unawdydd. Eto fedrwn ni ddim ond dyfalu sut y byddai hynny wedi effeithio ar ei yrfa fel canwr. Achosi iddo golli'r elfen 'werinol' efallai?

Yr hyn sy'n sicr yw fod yna lawer o ddawnsio a chanu yn y ffeiriau a gynhelid ym Mhenllyn yn y cyfnod yma, a llawer o'r baledwyr yn gwerthu copïau o'u cerddi am ryw ddimai neu geiniog. Efallai y dylwn hefyd grybwyll enw canwr gwerin arall, yn wreiddiol o Drawsfynydd, sef Ifan Edwards, Gwerngenau, Capel Celyn, y dywedir iddo fod yn rhannu ei hen ganeuon gyda Bob Roberts.

Gweithio adre ar y fferm, yn achlysurol yn y felin, cario cerrig i'r gwaith chwisgi, cymdeithasu â'i gyfoedion ac â thrigolion hŷn yr ardal, cerdded eisteddfodau a dod adre'n fuddugol – dyna'r bywyd. A mwynhau cwmni merched mae'n siwr! Er nad hi, yn ôl y sôn, oedd yr unig un y bu a diddordeb ynddi, merch o fferm gyfagos ddaeth yn gymar bywyd iddo. Yr oedd, ac y mae, fferm Fron-goch yn un o'r daliadau mwyaf ar Stad y Rhiwlas. Ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Morris a Harriet Jones a'r teulu oedd yn byw yno. Hannai Morris o Faentwrog a Harriet o Gerrigydrudion, ac Elizabeth, eu merch, a ddaeth yn wraig i Bob Roberts. Maes o law magwyd tri o ddisgynyddion ar aelwyd Tai'r Felin, gydag enwau teuluol i gyd, Cadwaladr, Harriet a Morris.

Roedd y traddodiad cerddorol yn dal i gael ei gynnal gan y tri aelod newydd o'r teulu, gyda Harriet yn gyfeilydd medrus yn ogystal. Roedd tinc Bob Roberts yn llais Dwalad y mab, ond yn ei henaint cwyno y byddai na chafodd ef gymaint o sylw ac anogaeth gan ei dad ag a gafodd Harriet a Moi. Efallai fod hynny'n wir, oherwydd ni ddaeth Dwalad i'r amlwg fel canwr i'r un graddau ag aelodau eraill y teulu, a threuliodd ei oes, gyda Connie ei wraig a Glyn y mab, yn ffermio Defaity, Cwmtirmynach, un arall o ddaliadau Stad y Rhiwlas. Tawelu yn araf hefyd fu hanes Harriet. Tua'r un adeg ag y daeth ei thad i fri mawr fe briododd hi un o wŷr Llanuwchllyn, John Parry'r Brynllech, a mynd i gadw'r siop a'r Post yng Nghapel Celyn. Ganwyd iddynt ferch, Bethan, a hwy oedd yn llythrennol ymhlith yr olaf i symud o Gapel Celyn cyn boddi'r cwm. Loes fawr oedd colli Bethan yn ferch ifanc 31 oed, hithau wedi etifeddu'n helaeth ddawn gerddorol y teulu.

Gwelwn fod y gân wedi llifeirio o Dai'r Felin dros gyfnod pur faith. Tybed pryd yn union y ffurfiwyd Parti Tai'r Felin a fu'n diddori cynulleidfaoedd drwy Gymru gyfan, a thros Glawdd Offa? Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1931 enillodd Bob Roberts ar ganu Cân Werin. Ei gyfaill John Thomas, Maesyfedw, a ddaeth yn ail, y ddau ohonynt yn eu chwedegau. Un o gyffiniau Stiniog oedd John Thomas, ychydig yn hŷn na Bob Roberts, a chanddo ei stôr ei hun o hen ganeuon. Roedd hi'n dipyn o gystadleuaeth rhwng y ddau – eiddigedd hefyd efallai – mewn steddfod a chyngerdd, ond mewn ysbryd cyfeillgar bob amser. Ond doedd fiw i'r naill ddefnyddio un o ganeuon y llall. Gwarchodid y rheini'n ofalus iawn a dywedir i John Thomas, ac yntau'n 90 oed, wrthod recordio un o'i ganeuon gan y byddai ei hangen mewn cyngerdd!

Awgryma'r Parchedig Robin Williams mai yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Bangor y ganwyd y parti. Gwelais adroddiad arall gan un o deulu John Thomas sy'n nodi bod:

Bob Tai'r Felin am gael ffurfio parti, yr oedd ganddo fab a merch, Cadwaladr a Harriet. Yn Maesfedyd yr oedd gan John Thomas Bob a Lizzie Jane, mab a merch ei wraig o'r gŵr cyntaf. Penderfynwyd ffurfio parti, a chytunwyd i'w alw yn "Parti Tai'r Felin". Tua diwedd y flwyddyn 1916 y perfformiodd gyntaf. Gadawodd Cadwaladr a Harriet y parti ar ôl cyfnod byr oherwydd gofalon y fferm a'r gwaith tŷ a gorchwylion eraill. Clywodd Llwyd o'r Bryn am helyntion y parti, ac fe gynigiodd ddod yn aelod fel adroddwr a chyflwynydd iddynt. O hyn ymlaen cynyddodd poblogrwydd Parti Tai'r Felin yn anhygoel a chaent neuaddau llawn ym mhob perfformiad.

Yr adroddiad yna sydd fwyaf derbyniol i mi, a gallaf dderbyn i'r gystadleuaeth ym Mangor roi rhyw hwb ychwanegol iddynt. Ni wyddom pa bryd y dychwelodd Harriet na phryd y diflannodd Bob, ond fel parti o ddau gyfaill a'u dwy ferch gyda Llwyd o'r Bryn y mae cof a sôn amdanynt erbyn hyn.

Mae digon wedi ei ysgrifennu eisoes am y parti, raid imi ond eich cyfeirio at *Y Pethe* (Llwyd o'r Bryn) ac *Y Tri Bob* (Robin Williams). Afraid dweud bod y derbyniad iddynt ym mhobman yn wresog, a dweud y lleiaf. Ambell dro ddi gwerthfawrogiad ar ffurf pennill, oherwydd dyma sut y cyfarchwyd hwy ym Methesda ym 1934 gan fardd a alwai ei hun yn Gwilym Llafar:

Cwmni Tai'r Felin

Mae cwmni Tai'r Felin y Bala
Yn ennill edmygedd y wlad,
A phwy fuasai'n dod i Fethesda
I roddi'r fath wleddoedd mor rhad?
Pa gwmni'n y byd fedrai blethu
Caneuon y werin mor ffri?
Beth bynnag mae'r Saeson yn ganu
Rhowch Gwmni Tai'r Felin i mi.

Gwahoddwch gantorian o Lundain
A'u slyrs yn ddwy droedfedd o hyd,
Ond nid yw'r frest wen a'r got bigfain
Yn ymyl y rhain, yn ddim byd.
Ewch drosodd i Ffrainc os dymunwch
Am denor neu faswr o fri,
Ond tra bo'n fy nghalon wladgarwch,
Rhowch Gwmni Tai'r Felin i mi.

Pob parch i gantorion drwy'r awyr
Ddarlledir dros wyneb y byd,
Ond gwell gen i ganu y ffermwyr
Sy'n ennill fy nghalon i gyd.
Er cryfed yw corau mawr Cymru
A llwyfan 'Steddfodau o fri, –
Gadewch y rhai hynny o'r neilltu, –
Rhowch Gwmni Tai'r Felin i mi.

Yn ôl adroddiad arall roedd pethau rhywbeth yn debyg yn Lerpwl un Gŵyl Ddewi – chafodd Leila Megane fawr o groeso, ond fe dynnodd Bob Roberts a John Thomas y lle i lawr! Ni wn pwy oedd y trefnydd, Llwyd o'r Bryn yn fwy na thebyg, ond ceir adroddiad am fynd i Dde Cymru ar y trên, ac aros tair noson, i gyngherdda mewn lleoedd mor ddiarth â'r Tymbl, Felin-foel a Llanelli.

Ond yn wir, yn gynnwys ym 1936 daeth taw dros dro ar yr alaw. Ar 12 Chwefror bu farw Elizabeth Jane Roberts yn 59 mlwydd oed ac ni allai Bob Roberts ganu mwy, o leiaf ddim yn y modd y bu wrthi mor frwdfrydig am dros hanner canrif. Ond canodd mewn ffordd wahanol, annisgwyl efallai i ni heddiw, sef ar ffurf tri englyn i 'Lis':

Ar fy ngwedd nid oes heddwch; – aeth alaw
A thelyn yn dristwch;
I einioes pa ddiddanwch,
A'm rhan yn y llan yn llwch?

Ni chwennych fy nghorff ychwaneg – na chael
Chwilio is y garreg;
Yr ydwyf lawer adeg
Yna'n dod yn union deg.

Efallai bydd cyfeillach – rhyngom
Er angau'n berffeithiach,
A chawn berthynas lawnach
Yn felys fyth, fy Lis fach.

Camwn ymlaen yn awr ryw dair neu bedair blynedd. Dydw i ddim yn siwr faint oedd fy oed i, 6 neu 7 efallai, pan gefais fynd hefo'm rhieni i Noson Lawen yn Ysgol y Pandy yn Llanuwchllyn – neb i warchod mae'n siwr, neu neb eisiau gwarchod! Cangen leol Plaid Cymru oedd wedi trefnu, ac amryw o bobol Penllyn yn cymryd rhan. Cassie Davies HMI yn siarad yno. Doedden nhw ddim wedi dyfeisio AEM yr adeg honno! Yr argraff ges i oedd mai pur ddi-drefn oedd pethau ar y noson, dim llwyfan, ond pawb yn codi i ganu ar yr un lefel â'r gynulleidfa. Ond roeddwn i'n lwcus, cael bod ymysg y cantorion a'r diddanwyr am

fod dad a mam yn canu yno, felly medrwn weld popeth o bwys er fy mod i'n ddigon byr o gorffolaeth i gael fy nghodi i ben cadair i ganu 'Bwrw glaw yn sobor iawn'. A dweud y gwir, John Thomas yn canu'r 'Betrise'n' a'm swynodd i ar y noson, ond cofiaf yn dda hefyd am Bob Roberts yn canu am y ddwy Fari, y Glwyseg, a 'Mari Fach fy Nghariad'. A phwy a'i clywodd nad anghofia'r diweddglgo, a'r 'soh' uchel yn 'Hafôd y Rhiw'. Ac mi fedraf ymfrostio heddiw mod i'n un o'r rhai ffodus fu'n rhannu llwyfan – neu gadair efallai – hefo Bob Tai'r Felin! Ac mae'n beryg nad oes yna lawer ohonom ar ôl!

Mae'n debyg i'r noson honno agor cil y drws ar ryw wyth mlynedd neu fwy o adnabyddiaeth o Bob Roberts. O leia roeddwn i'n gwybod pwy oedd y dyn yna a'r mwstas a welwn mewn cyfarfodydd fel Gŵyl yr Ysgol Sul flynyddol yn y Bala. Roedd ei ddyddiau cystadlu wedi hen ddod i ben, ond byddai yn y gynulleidfa yn cymeradwyo, ac yn annog plant y Cwm. Ac yn falch o lwyddiant y genhedlaeth nesa. Fe gofiaf yn dda mai Moi Tai'r Felin oedd y cynta rioed a glywais i'n canu 'Yr Ehedydd', geiriau T. Gwynn Jones, 'Gantor y gloywder' ar gerddoriaeth W. S. Gwynn Williams, a hynny'n swynol iawn yng Ngŵyl yr Ysgol Sul.

Yn y pedwardegau daeth Noson Lawen y radio yn boblogaidd. Yn dilyn eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol bu parti cerdd dant y Parc, a hyfforddwyd gan fy nhad, yn cymryd rhan yn rheolaidd bob yn ail â'r Tri Thenor o Dregarth. Afraid atgoffa neb fod Bob Roberts hefyd yn un o'r sêr, a bu'n teithio Cymru gyda'r myfyrwyr o Fangor a fyddai'n cyfrannu mor ddifrif i'r Noson Lawen. Yn achlysurol byddai hefyd yn ymuno â Pharti'r Parc i gyngherdda yma ac acw. Unwaith neu ddwy cefais fynd i ganlyn y rheini, a chlustfeinio ar y sgwrs, a chlywed ambell berl fel '... waeth ichi heb â chanu, na waeth Puw (fy nhad), os na ddalltith pobol be dech chi'n ddeud!' A phawb oedd o fewn clyw yn gwybod ei fod o'n gwybod am be oedd o'n siarad, oherwydd pe byddai gwobr am eirio eglur, Bob Tai'r Felin fyddai'n mynd â hi.

Wrth sôn am ei gysylltiad â chriw'r Noson Lawen dylid crybwyll y ffilm o'r un enw a wnaeth yn y Parc. Y Cynilion Cenedlaethol a'i noddodd – ymgais mae'n siwr i'n cael i gyfrannu ychwaneg i'r sefydliad hwnnw. Ddweda i ddim fod Bob Roberts yn un o'r actorion, y cwbl a wnaeth oedd bod yn fo'i hun. Fo oedd 'Taid', yn rhan o'r teulu, yn codi canu yn y capel, yn helpu mymryn ar y ffarm yn union fel y gwnâi yn ei fywyd bob dydd, ac yn canu a dawnsio yn y Noson Lawen. Da fod y ffilm drigain oed ar gael erbyn hyn ar ffurf fideo neu DVD.

O dipyn i beth, o wrando ar ambell sgwrs, mi ddeuthum i wybod am y Tai'r Felin direidus, fel y byddai mewn Cyngerdd neu Noson Lawen hefo hogiau'r Parc yn cyrraedd y stafell fach yng nghefn y llwyfan ar ôl canu unawd – a'r encôr – a'r gynulleidfa yn dal a dal i gymeradwyo. Yr arweinydd, John Jones Maesywaun fel arfer, yn dod yno i ddweud bod y bobol yn rhoi encôr – arall. Bob yn ysgwyd ei ben yn ffyrnig, 'Na wna wir, na wna wir, dw'i wedi colli 'ngwynt yn lân wchi, be s'ar y bobol, den nhw'n trio'n lladd i?' a'r nodyn yn codi'n uwch gyda phob sill a ddôl o'i geg. Yr arweinydd yn mynd yn ôl i wynebu'r dorf yn

ymddiheurol, a dweud bod Bob Roberts yn mynd i oed, ac yn y blaen ac yn y blaen, ond yn sydyn reit byddai'r unawdydd lluddedig yn ymddangos wrth ei ochor wedi llwyr adfywio er mawr ddifyrrwch i'r gynulleidfa!

Hoffais stori Carys, druan, amdani ei hun yn cael ei difyrru ganddo yn Nhai'r Felin. I Lanuwchllyn yr aeth Moi hefyd i chwilio am wraig, sef Cathy, merch Bryngwyn, Pennantlliw, ac yn Nhai'r Felin y cartrefwyd nes symud i Gwernddwryd, Cricieth, tua diwedd y pumdegau. Mae'n siwr fod cael hen daid i ganu i'r plantos yn help mawr i wraig ifanc brysur yn Nhai'r Felin. Ac er mai ifanc (iawn iawn!) oedd Carys pan fu farw Bob Roberts, fe gofia amdani ei hun yn dysgu 'Siôn a Siân Sarrug', 'Tase gen i ful bach', ac aml gân arall ar ei lin. Ond roedd un yn fwy o ffefryn gan Taid na'r un, a hynny oherwydd adwaith y fechan pan ddôl rhywun heibio ar ei dro, ac yntau'n holi'n gynhyrfus, 'Dech chi isio' i gweld hi'n crio, 'dech chi isio' i gweld hi'n crio?' A chyn gynted ag y byddai'n taro 'Tôn y Botel' fe lifai'r dagrau! Does ryfedd fod Carys mor llwyddiannus heddiw yn hybu'n cerddoriaeth draddodiadol wedi cael cychwyn fel yna gyda'r llon a'r lleddf!

Roedd y direidi yn rhan ohono erioed wrth gwrs, oherwydd clywais stori amdano pan oedd yn llencyn yn cystadlu mewn eisteddfodau ar unawd, nid Cân Werin, ond yr Unawd Gymraeg a'r Her Unawd. Un o'i hoff driciau i daflu gwrthwynebydd oddi ar ei echel oedd sisial yn gynhyrfus wrth ddod i lawr o'r llwyfan ar ôl canu, a'r nesaf yn dod i fyny, 'Hei was, cau dy falog, cau dy falog.' Hyd yn oed ym 1931 dywedid amdano yn rhagbrawf y gystadleuaeth Cân Werin yn holi'r cystadleuwyr eraill, 'Be w't ti'n ganu, be w't ti'n ganu?' 'Y gân a'r gân.' 'Wannwyl, di honne ddim yn gân werin!' A stori neu ddwy arall nad ydynt addas efallai i ddarllenwyr syber y cyhoeddiad hwn!

Roedd yn sgwrsiwr brwdfrydig. Soniodd Emrys Jones Llangwm amdano'n ei gario yn y car i'r Bala rhywdro, a'r sgwrs yn cau darfod, ac Emrys yn dal i ddreifio i gyfeiriad Llanuwchllyn i Bob gael amser i offenn ei stori! O ran hynny roedd popeth a wnâi yn llawn brwdfrydedd. Cefais olwg ar annerchiad a draddododd ar 'Yr Ysgol Sul a Chaniadaeth y Cysegr', tua chanrif yn ôl faswn i'n tybio, mewn Cyfarfod Ysgolion Sul neu Seiat yn rhywle ym Mhenlllyn. Wedi rhoi darlun o'r sefyllfa yn y cyfnod mae'n cynhesu wrth dynnu tua'r diwedd, a bron na chlywaf y berorasiwn yn ei lais, yn enwedig wrth ddod i'r frawddeg olaf un:

Gellir dysgu pawb i ganu, mae mor hawdd â dysgu un i siarad. Ni ddylid arbed unrhyw boen na thraul er meithrin y gelfyddyd gerddorol ym mys ein hieuentid. Mae y rhai sydd yn esgeuluso dyrchafu canu yn yr Ysgol Sabothol yn gwneud dirfawr gam â'r genedl sydd yn codi. Iaith y galon yw canu. Y mae yn llefaru wrth y galon, ac yn tywallt ohoni. Y mae pawb i ganu, a chanu o'r galon 'pob perchen anadl molianedd yr Arglwydd'. Ac os bydd y teimlad yn cael ei gynhyrfu, dowch inni ddyblu a threblu nes bydd yr Ysbryd yn berwi yn ein calonau.

Roedd y sgwrs yn cau darfod hefyd yn un o adeiladau fferm Cefn Gwyrgrug, Aberhosan, a hynny yn hwyr un nos o fis Awst 1937. Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth oedd hi, a Bob Roberts wedi ymuno â Chymdeithas y Porfeydd Gwelltog. Criw o ddynion oedd y rhain oedd yn lletya ar nosweithiau'r Steddfod mewn tŷ gwair neu sgubor neu lofft stabal oedd heb fod ymhell o'r maes. Rhyw Faes B henffasiwn, gwrywaidd a pharchus! Llwyd o'r Bryn oedd Ysgrifennydd y Gymdeithas. Synnwn i ddim nad y fo oedd ei sylfaenydd hefyd.



Cymdeithas y Porfeydd Gwelltog: pobl o ardal Penllyn a chyfeillion, yn aros mewn ysgubor fferm dros wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ddechrau ym 1921 (Eisteddfod Caernarfon). Gwellt neu wair oedd y gwely! Gwelir yn y llun Meic Parry, I. B. Gruffydd, Tecwyn Lloyd, Trebor Lloyd Evans, W. E. Thomas, W. D. Williams, J. F. Owen, Bob Tai'r Felin, Bob Thomas, Cloddiau, Llwyd o'r Bryn, R. E. Rowlands, Glyn Jones.

Llun trwy ganiatâd Barddas, Y Gymdeithas Gerdd Dafod.

Wedi i'r gân ddod i ben ar ôl colli Lis ni pharodd y tawelwch yn hir. Yng Nghefn Gwyrgrug fe'i perswadiwyd gan y Llwyd i roi cân i'r cwmni. A dyna ailddechrau wedi'r mudandod. Mae'r gweddill, fel y dywed yr hen ystrydeb, yn hanes! Fe glywais Llwyd o'r Bryn yn dweud rhywdro mai Bob Thomas, y Cloddiau, oedd yn rhannu gorffwysfan â Bob Roberts ar y noson dan sylw, ac roeddwn i'n falch iawn o gael cadarnhad o hynny yn y rhifyn o *Pethe Penllyn* a gyhoeddwyd cyn Eisteddfod Genedlaethol 2009. Darn ydyw o 'gofnodion' y gymdeithas a gedwid yn fanwl a difyr gan Lwyd o'r Bryn. 'Nos Wener daeth penllanw y croeso, pan osodwyd y gwely wenscot i Bob Tai'r Felin a Bob y Cloddiau. Dau rhy effro i gysgu llawer. "Wyddost ti," ebe Tai'r Felin, "na fuom ni rioed yn cysgu hefo'n gilydd o'r blaen?" "Dyden ni ddim wedi gwneud eto dal di sylw," ebe'r Cloddiau'. Bob y Cloddiau oedd y bardd a ddisgrifiodd y dyrfa enfawr a ddaeth i fynwent Llanycil ddechrau Rhagfyr 1951 gyda'r llinell gofiadwy "Tyrfa ola' Tai'r Felin'.

Ac mae Tecwyn Lloyd wedi cyfeirio at y digwyddiad yng Nghefn Gwyrgrug mewn penillion a ysgrifennodd ar achlysur ymweliad y Brifwyl â Dyffryn Dyfi ym 1981. Mae'r penillion, ynghyd a llun o'r criw, yng nghyfrol *Bro a Bywyd Tecwyn Lloyd*.

Stedd fod Maldwyn 1981

'Run rhai yw'r sêr sy'n fflachio
Heno uwch maes yr ŵyl
Â'r rheini ym mil naw tri saith
Pan gawsom ninnau'n hwyl:

Ninnau, nad ydym heddiw
Y llafnau oeddym gynt,
Yn ryffio byw drwy'r wythnos boeth
Heb swllt, heb sôn am bunt.

Ond clywsom Bob Tai'r Felin
Yn tiwnio dan y sêr
Ar lawr sied wair 'rôl swper brwd
Wrth olau kannwyll wêr.

A Llwyd o'r Bryn yn adrodd
Trasiedi'r iâr un ŵy,
A chwerthin mwy yn siŵr a wnaem
Pe gallem chwerthin mwy.

Rywbryd cyn glas y cyfddydd
Cysgasom ar y gwellt,
Oerodd y nos cyn wincio o'r wawr
Trwy y cloëri dellt, –

Y wawr na thyr fyth eto
Ar ŵyl mil naw tri saith
I alw Bob a Llwyd a Meic
I'r maes o drwmgwsg maith.

Ond nid yw'r haul yn malio
Na'r sêr yn hidio draen:
'Run pryd yw heddiw iddynt hwy
Â'r ddoe fu yma o'i flaen.

A byddan, fel yr haul a'r sêr, mi fydd yr hen ganeuon hefyd, gobeithio, yn dal yma fory, pan fyddwn ni i gyd wedi mynd. A bydd ambell record ar gael, yn siwr, o'r llais unigryw a fu'n eu canu.

Bu farw Robert Roberts, Tai'r Felin, ar 30 Tachwedd 1951 yn 81 oed. Diolch am ei gyfraniad arbennig i'n traddodiad cerddorol.

NODYN

Byddai cael yr uchod i drefn wedi bod yn amhosibl heb help o lawer cyfeiriad, felly diolch o galon i bawb ohonoch: i un o ddisgynyddion Robert Roberts, sef Mrs Carys Jones, Bryn Rhydd, Chwilog, am lawer o wybodaeth a thrysorau teuluol ac ychydig o atgofion; cefais gyfraniadau gan Mrs Jane Hughes, Arberth, Bethel; a bûm hefyd yn poeni staff Archifdy Cyngor Gwynedd yn Nolgellau, a chael croeso – a benthgysel!

Diddorol oedd ailddarllen pytau allan o amryw gyhoeddiadau Cymraeg, sef:

William Williams, *Hanes Methodistiaeth Dwyrain Meirionnydd* (Bala, 1902)

Llwyd o'r Bryn, *Y Pethe* (Y Bala, 1956)

Robin Williams, *Y Tri Bob* (Llandysul, 1970)

Awel Jones, *Drych Penllyn* (Llanuwchllyn, 1990)

Lyn Ebenezer, *Y Pair Dadeni: hanes gweryll Fron-goch* (Llanrwst, 2005)

Bro a Bywyd D. Tecwyn Lloyd, gol. Elwyn Edwards (Cyhoeddiadau Barddas, 1997)

CLODDIO'R AUR: CANRIF CYLCHGRAWN Y GYMDEITHAS*

Rhidian Griffiths



Mae hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru i'w olrhain i Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1906, ac mae'r hanes hwnnw wedi ei gofnodi'n llawn gan D. Roy Sae'r yn *Canrif Gron* a gyhoeddwyd i ddathlu'r canmlwyddiant, ac ymhellach yng nghyrol Meredydd Evans, *Hela'r Hen Ganeuon*.¹ Ond o safbwynt hanes y cylchgrawn, y dyddiad allweddol yw 8 Ionawr 1909, pan gynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cyngor y Gymdeithas ym Mangor. Cadeiriwyd hwn gan Syr Harry Reichel, Prifathro'r Coleg; yno hefyd roedd y Fonesig Reichel, Grace Roberts (sef Grace Gwyneddion Davies yn ddiweddarach), Mary Davies, y Canon Edwards, W. G. Thomas, Gwyneddion Davies, J. Lloyd Williams, R. W. Jones, W. E. Jones ac L. D. Jones 'Llew Tegid'. Hwn oedd y cyfarfod a etholodd Syr William Preece yn Llywydd y Gymdeithas ac a enwebodd chwe Is-Lywydd a phymtheg aelod o Bwyllgor Gwaith. Ar lawer golwg felly roedd hwn yn gyfarfod i ddechrau ar y gwaith yn ffurfiol, i ddilyn y cyfarfod yn Llangollen ar 2 Medi 1908 lle mabwysiadwyd y cyfansoddiad a ffurfioli'r Gymdeithas a oedd wedi'i chychwyn yn Eisteddfod Caernarfon yn 1906. Mae'n arwyddocaol felly taw un arall o benderfyniadau'r cyfarfod oedd trefnu i gyhoeddi cylchgrawn, yn unol â'r cymal yn y cyfansoddiad sy'n diffinio gwaith y Gymdeithas ('the business of the Society'): 'the collection, selection and publication of Folk-songs, &c.'. A dyma'r cofnod allweddol o'r cyfarfod hwnnw:

Journal

It was resolved. That the following persons be given executive powers to make all arrangements for the issue of the first Number of the Journal, viz:- The President [sef Syr William Preece]; the two secretaries [Mary Davies ac Amy Preece]; The Musical Editor [J. Lloyd Williams], and Mr Goscombe John; and that it be an instruction to them that the contributions to the Journal be in Welsh or English, and that the Editor's Notes be in English.²

Nid gweithredu'r cyfansoddiad fel y cyfryw oedd y penderfyniad hwn (hyd y gwelaf nid yw'r cyfansoddiad yn sôn yn benodol am gylchgrawn), ond dyna'r cam naturiol i'r Gymdeithas ifanc, cam a oedd yn adlewyrchu'r hyn roedd mudiadau tebyg mewn gwledydd eraill yn ei wneud. Sylfaenwyd y Folk-Song Society yn Lloegr yn 1898 a chyhoeddwyd rhifyn cyntaf ei chylchgrawn yn 1899; sefydlwyd Cymdeithas Iwerddon yn 1904 ac ymddangosodd ei chylchgrawn hithau am y tro cyntaf yn 1905.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf cylchgrawn y Gymdeithas yng Nghymru ym mis Mehefin 1909, ei glawr wedi ei gynllunio (rwy'n tybio) gan Goscombe John, dyluniad y parhawyd i'w

ddefnyddio tan 1937. Mae'n ddiddorol fod gan William Goscombe John (1860–1952) ran yn y gwaith cychwynnol hwn. Rhestrir ef yn un o aelodau'r Gymdeithas ('Ordinary Members') yn y rhestr sy'n ymddangos yn y rhifyn cyntaf, a hwyrach fod ei ddiddordeb yng ngwaith y mudiad canu gwerin yn cyfochri â'i ddiddordeb mewn celfyddyd gwerin yn gyffredinol – ef a awgrymodd i'r Amgueddfa Genedlaethol y dylai gasglu enghreifftiau o gelfyddyd gwerin, a hynny mor gynnar ag 1913.³

Yn ei gyflwyniad ('Editor's Introduction') i'r rhifyn cyntaf hwn, mynegodd y Golygydd, J. Lloyd Williams, ei ffydd gadarn fod digon o waith i'w gyflawni gan yr egin Gymdeithas. Mae'n sôn am yr hyn a wnaethpwyd eisoes gan gasglyddion Bangor, sef aelodau'r Canorion, y gymdeithas o fyfyrwyr a sefydlwyd i gasglu ac i ganu caneuon gwerin: roedd un ohonynt, John Morris, wedi casglu yn agos i ddeugain o ganeuon.⁴ Rhybuddia Lloyd Williams fod angen bod yn wyladwrs rhag cynnwys tonau estron a chyfansoddiadau diweddar, ond mai gwell fyddai casglu gormod na pheidio â chasglu o gwbl. Ac er gresynu na fuasai brwdfrydedd o blaid casglu yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg, ac er gofidio bod llawer wedi'i golli am byth, roedd yn hyderus 'that there is still some ungathered gold of Welsh song among the Welsh hills'.⁵

Mae lle i'r Gymdeithas ymfrostio iddi gyhoeddi rhifyn cyntaf ei chylchgrawn yn 1909 a bod y cylchgrawn hwnnw'n dal i ymddangos. Prin yw'r cylchgronau Cymreig sy'n gallu hawlio record cystal. Wedi dweud hynny rhaid cydnabod nad yw'r cylchgrawn wedi ymddangos yn gyson dros y ganrif. Fe'i cyhoeddwyd dan ei deitl cysefin – *Cylchgrawn Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru / The Journal of the Welsh Folk-Song Society* – yn bum cyfrol o bedwar rhifyn yr un rhwng 1909 ac 1977, sef ugain rhifyn dros gyfnod o 68 mlynedd – un rhifyn bob 3.4 blynedd ar gyfartaledd. Afreolaidd serch hynny fu'r cyhoeddi yn ystod y cyfnod hwn: ymddangosodd rhifynnau Cyfrol 1 yn gwbl reolaidd yn 1909, 1910, 1911 ac 1912; Cyfrol 2 yn 1914, 1919 (bwlch amlwg o achos y Rhyfel Mawr), 1922 ac 1925; Cyfrol 3 yn 1930, 1934, 1937 ac 1941; Cyfrol 4 yn 1948, 1951, 1953 ac 1954; a Chyfrol 5 yn 1956–7, 1968, 1971 ac 1977. Gwelwn felly fod y cyhoeddi yn tueddu i fod yn fwy ysbeidiol fel yr oedd amser yn mynd yn ei flaen. Er 1978 mae olynnydd y Cylchgrawn, *Canu Gwerin*, wedi ymddangos yn rheolaidd bob blwyddyn, sef 32 rhifyn hyd at 2009. Gellir dweud felly, er clod i'r Gymdeithas, fod momentwm cyhoeddi'r cylchgrawn wedi cynyddu'n sylweddol wrth i'r hen wreigan fynd heibio oed yr addewid a chyrraedd ei chanrif. At hynny mae'n deg nodi bod golygyddiaeth y cylchgrawn wedi bod yn bur sefydlog – J. Lloyd Williams o 1909 hyd at ei farw yn 1945 (er iddo geisio ymddiswyddo fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw), W. S. Gwynn Williams o 1948 hyd 1971, Roy Saer o 1977 hyd 1988, a Rhiannon Ifans o 1991 ymlaen (paratowyd rhifynnau 1989 ac 1990 gan Rhidian Griffiths). Pedwar golygydd dros gyfnod o ganrif; ond y cyfraniad mwyaf nodedig oedd cyfraniad Lloyd Williams. Roedd yn nesáu at ei 55 oed pan ddechreuodd ar y gwaith, ac wedi croesi'r 90 erbyn y diwedd. Ef fu'n gyfrifol am baratoi'r cyfoeth o alawon a ymddangosodd yn nhair cyfrol gyntaf y cylchgrawn, corpws sylfaenol gwaith cyhoeddi'r Gymdeithas. Erbyn diwedd cyfrol 3, sef rhifyn 1941, roedd rhai cannoedd o alawon ac

amrywiadau wedi eu cyhoeddi, gyda 28 ar ben hynny yn rhifyn 1948, a oedd wedi'i baratoi gan Lloyd Williams cyn ei farw.

Mae'n werth tanlinellu'r nifer am ddau reswm sy'n gysylltiedig â hanes blynyddoedd cynnar y Gymdeithas. Yn y dechreuad pwysleisiwyd taw'r gwaith i'w gyflawni oedd darlithio am y traddodiad gwerin, a chasglu a chyhoeddi caneuon. Yn y blynyddoedd cynnar roedd y cylchgrawn yn cyflwyno adroddiad ar y gwaith oedd yn mynd yn ei flaen, a dyma brif gyfrwng cyfathrebu'r Gymdeithas. Yn ail, roedd yn bwysig iawn i'r cylchgrawn adlewyrchu bywiogrwydd a lefel uchel o weithgarwch oherwydd bod cryn ragfarn yn erbyn y Gymdeithas o'i chychwyn cyntaf. Dyma eiriau'r Rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf (sef rhagymadrodd a gynhyrchwyd yn 1912 gyda chyhoeddi'r pedwerydd rhifyn):

On the completion of this, the first volume of the Journal, we feel we have strong reasons for congratulating the Welsh Folk Song Society upon the success of its work. Our country is very small, and consequently the area available for the collection of songs is exceedingly limited; the Folk Song movement started in a modest and unpretentious way among a handful of students; no one ever dreamt that there existed more than a dozen or two unrecorded tunes, and consequently there was no idea at first of the possibility of establishing an enthusiastic Society for collecting and publishing the songs. At first very few people in Wales understood the folk song, and fewer still possessed the gifts necessary to discover the singers of old tunes and to persuade them that their songs were good enough to set down "in print".⁶

Diddorol hefyd yw fod y gyfrol gyntaf hon yn rhestru enwau'r casglyddion y mae eu gwaith wedi ei gyhoeddi – ffordd o roi *imprimatur* i waith ymchwil pobl oedd â gwir ddiddordeb yn y maes, ond a ystyrir gan y sefydliad cerddorol academaidd yng Nghymru yn amaturiaid.⁷ Wrth grynhoi hanes cynnar y Gymdeithas yn 1934 sylw J. Lloyd Williams oedd hyn: 'Most of the professional musicians, together with the "Challenge Solo" singers kept aloof from the movement; some even poured ridicule upon it.'⁸ Roedd y cylchgrawn felly nid yn unig yn gyfrwng i gyflwyno caneuon ond yn gyfrwng cenhadu yn enw dilysrwydd y mudiad cyfan.

Gwelir yn fuan wrth edrych ar batrwm cyhoeddi'r cylchgrawn fod momentwm wedi'i gollu yn sgîl y Rhyfel Byd Cyntaf. Ni chyhoeddwyd rhifyn o gwbl rhwng 1914 ac 1919, a dilynwyd yr ail rifyn hwnnw gan rifynnau yn 1922 ac 1925; daeth bwlch wedyn tan 1930. Rhan o'r anhawster oedd sefyllfa'r golygydd ei hunan. Fwy nag unwaith ceisiodd Lloyd Williams ymddiswyddo, ond ni chafodd wneud, mae'n debyg am nad oedd neb cymwys ar gael i'w olynu yn y swydd. Roedd digon o ddeunydd wrth law – mae deunydd heb ei gyhoeddi yn dal yng nghasgliad papurau J. Lloyd Williams yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru⁹ – ond roedd angen golygu a dadansoddi'r deunydd cyn ei roi gerbron y byd. Wrth gyflwyno rhifyn 1930, sef cyfrol 3, rhifyn 1, ymddiheurodd Lloyd Williams am ei hwyrffrydigrwydd:

It is the Editor that is to blame rather than the Society's Executive; and he is not so

much blameworthy as unfortunate in having been burdened overmuch with official work [a chofier ei fod hefyd erbyn 1930 yn 76 oed ac yn ymgymryd â golygyddiaeth misolyn *Y Cerddor* ar ran Hughes a'i Fab]. Anyone who troubles to read this number will perceive that it involved a large amount of detailed research in old printed books and MSS., much correspondence, and visits to libraries ... It is only fair to the Editor to point out that he has repeatedly tendered his resignation ...¹⁰

Eto mae safon y cylchgrawn yn yr 1920au yn uchel. Cynhwysir ysgrifau gan T. Gwynn Jones ar fydr ac odl ac ar 'Welsh song writing' yn ogystal â thoreth o ganeuon a sawl ysgrif ddadansoddol ar y casgliadau printiedig cynnar o alawon Cymreig. Yn yr 1930au mae'n amlwg i bethau fynd yn fwy anodd. Mae rhifyn 1930 yn sylweddol iawn ac yn cynnwys rhyw 50 o ganeuon gyda nodiadau llawn; ond yn 1934 ac 1937 gwelir y golygydd, er yn dal i gyhoeddi caneuon, yn gorfod eu hatgyfnerthu ag ysgrifau ar hanes y Gymdeithas. O ystyried bod y to hyn – Mary Davies, Llew Tegid a'u tebyg – yn cilio o'r llwyfan erbyn hynny, mae cofnodi hanes y blynyddoedd cynnar yn ddewis amlwg, ond efallai ei fod hefyd yn awgrymu bod egni'r Gymdeithas yn pallu.

Mae'r bedwaredd gyfrol (1948–1954) yn denau o ran tudalennau, a gallwn deimlo efallai fod hynny'n adlewyrchu cyfnod llwm ym mywyd y Gymdeithas, er bod nifer dda o ganeuon wedi ymddangos. Yn wir mae'r bedwaredd gyfrol yn ganeuon i gyd, rhai wedi'u casglu gan Lloyd Williams ac eraill gan gasglyddion yr ail genhedlaeth; ond prin yw'r sylwadau golygyddol, ac ni cheir sylwadau beirniadol na chymharol ar y caneuon yn gyffredinol. Mae rhifyn cyntaf y bumed gyfrol (1956/7) yn adlewyrchu patrwm tebyg, sef caneuon yn bennaf (deg ohonynt), er bod yma hefyd ysgrifau, gan Enid Parry ar Maria Jane Williams a chan T. I. Ellis ar Mair Mynorydd (Mary Davies), yr ail yn atgynhyrchiad o sgwrs radio. Da oedd anrhydeddu rhai o'r casglyddion cynnar: oherwydd amseru'r rhifynnau ar ddechrau'r 1930au, ni chafwyd coffâd i Mary Davies yn y cylchgrawn wedi ei marw ym Mehefin 1930.

Ar ddechrau rhifyn 1956/7 mae W. S. Gwynn Williams yn taro nodyn golygyddol ychydig yn ddigalon, sy'n adlewyrchu efallai 'mid-term blues' aelodau'r Gymdeithas wedi hanner canrif. Noda ei fod yn llunio'r nodyn ar adeg pan oedd y Gymdeithas yn paratoi i ddathlu ei hanner canmlwyddiant (tybiedig) yn 1958.¹¹ Ac mae'n mynd yn ei flaen:

... er i nifer ohonom deimlo bod llawer o'r hen ganeuon gwerin Cymreig moddal nodweddiadol y ceisiasom eu cadw eisoes wedi eu nodi, efallai mai iawn o beth ar ddiwedd hanner canrif yw cadw Cylchgrawn y Gymdeithas ar agor led y pen mewn cyfrol newydd er mwyn diogelu canu traddodiadol Cymru, pa ffurf bynnag a gymer y caneuon yn y dyfodol. Ymddengys fod yr hen ddyddiau Cymreig syml gyda'u caneuon gwledig hynaws wedi mynd am byth, a dyddiau newydd ar ddyfod pan fydd cenhedloedd bychain yn ei chael yn fwy a mwy anodd i gadw eu diwylliant cynhenid. Pa fath bynnag ganeuon a gân Cymru yn y dyfodol, rhaid sicrhau bod

purdeb ac ansawdd mynegiant yn dal yn deilwng o bobl sydd wedi ymateb yn gyflymach i ganu nag i ddim arall yn y byd.¹²

Yr awgrym pendant a glywir yma yw nad oes llawer mwy o ganeuon i'w darganfod – sylw digon rhesymol, er bod mwy wedi dod i'r golwg yn ystod yr hanner canrif ers i Gwynn Williams ddweud hynny. Mae'r broffwydoliaeth am ddiwylliant cenhedloedd bychain yn un diddorol. Os rhywbeth, cafodd cenhedloedd bychain fwy o gyfle i fynegi eu hunaniaeth yn ystod y cyfnod dan sylw nag mewn cyfnodau cynt – dyna'n sicr sydd wedi digwydd yng Nghymru. Ar y llaw arall mae globaleiddio yn tueddu i weithio o blaid ieithoedd a diwylliannau cryfion, ond nid trwy ddulliau y gallai Gwynn Williams fod wedi eu dychmygu: prin y gallai fod wedi rhag-weld pwysigrwydd y rhyngwrdd a'r We Fyd-eang i'n hoes ni.

Efallai taw'r digalondid hwn sydd i gyfrif na chyhoeddwyd rhifyn pellach o'r cylchgrawn tan 1968, y bwch mwyaf yn ei hanes. Ni cheir ymddiheuriad yn nodyn y Golygydd (sydd yn Saesneg, yn wahanol i 1956/7), ond nodir bod ymddangosiad y rhifyn yn cyd-fynd â phen blwydd (tybiedig) y Gymdeithas yn 60 oed. Mae Gwynn Williams yn ymfrostio yng ngwaith casglu'r Gymdeithas, a gyflawnwyd yn gwbl wirfoddol – 'without the assistance of any grants from any Government, University or Education Authority' (cofier bod diwylliant y grantiau ar gynydd yng Nghymru erbyn 1968). Gresyna serch hynny nad yw Cymru wedi codi ysgol o gyfansoddwyr cenedlaethol i wneud cyfiawnder â'r cyfoeth o gerddoriaeth draddodiadol sydd ar gael. Y rhifyn hwn sy'n gosod y patrwm a fyddai'n sefydlog o hynny allan, sef mai astudiaethau fyddai'n llanw'r cylchgrawn yn bennaf, gydag ychydig o ganeuon. Felly pan gyhoeddwyd rhifyn 1968 (sef cyfrol 5, rhifyn 2), a elwir (heb esboniad amlwg) yn rhifyn coffa i J. Lloyd Williams, ceir nodyn ar Lloyd Williams gan Emrys Cleaver, darlith ar 'Geiriau'r alawon gwerin' gan Cynan, ac ysgrifau gan Mervyn Roberts ar 'Folksong and musical culture', Peter Crossley-Holland ar 'The tonal limits of Welsh folk song', Leslie Wynne Evans ar 'The Cambrian Minstrel' [Ieuan Ddu], Mansel Thomas ar 'Folksong arrangements', ac Ian Parrott ar 'The Davies family of Llandinam and the folk music of Wales'. Ymddangosodd y rhifyn hwn rai blynyddoedd wedi cychwyn yr arfer o gynnal cynadleddau penwythnos yn 1963, a bu hyn yn fodd i hybu'r ymchwil a fyddai'n dwyn ffrwyth ar dudalennau'r cylchgrawn, fel yr esbonia Roy Saer: 'Drwyddo [y Cwrs Penwythnos] ysbardunwyd ymchwil ffres a chynhyrchu trafodaethau yr oedd modd eu defnyddio wedyn yn y Cylchgrawn.'¹³ Parhawyd â'r drefn hon pan ailwampwyd y cylchgrawn dan olygyddiaeth Roy Saer (a oedd hefyd yn gyfrifol am rifyn olaf cyfrol 5 yn 1977), yn y gyfres newydd a ddechreuwyd yn 1978 dan yr enw *Canu Gwerin*. Mae cyfran dda o gynnwys *Canu Gwerin* dros y blynyddoedd yn deillio o'r cynadleddau penwythnos.

Mae natur y cylchgrawn dros y blynyddoedd yn ddrych i ryw raddau i ddatblygiad y Gymdeithas ei hun. Canolbwyntir yn y rhifynnau a'r cyfrolau cyntaf ar gyhoeddi caneuon, gan adlewyrchu'r casglu egnïol a nodweddiad flynyddoedd cynnar y Gymdeithas, cyn i'r

genhedlaeth gyntaf o'i selogion ddarfod o'r tir. Yn wir mae'r mwyafrif llethol o'r caneuon yn y cylchgrawn yn ymddangos yn y pedair cyfrol gyntaf, sef rhwng 1909 ac 1954, tua hanner y cyfnod dan sylw. Er bod caneuon yn ymddangos wedi hynny, maent yn llai niferus o dipyn, am y rheswm amlwg fod llai ohonynt i'w casglu a'u cofnodi nag yn y dyddiau cynnar arwrol. O'r bumed gyfrol ymlaen, ac yn sicr gyda'r rhediad presennol o *Canu Gwerin*, canolbwyntir ar erthyglau dadansoddol a disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau ar ganu gwerin a'r traddodiad gwerin yng Nghymru.

Pwy felly oedd ac yw'r cyfranwyr dros y blynyddoedd? Cesglir mai gwaith Lloyd Williams ei hun yw'r rhan fwyaf o'r cyfrolau cynnar. Fel y sylwyd eisoes, nid tan y bumed gyfrol y datblygodd yr arfer o gyhoeddi ysgrifau, a thros y blynyddoedd wedi hynny gwelwn gyfraniadau pur gyson gan yr hoelion wyrth: Meredydd Evans a Phyllis Kinney, Roy Saer, Rhiannon Ifans, Daniel Huws, Robin Gwyndaf, E. Wyn James, Tegwyn Jones, ac eraill yn fwy achlysurol: Alun Davies, Shân Emlyn, Amy Parry-Williams, Enid Parry, Eunice Bryn Williams, Emma Lile, a sawl un a fu'n astudio yn yr Ysgol Gerdd ym Mangor: Rachel Ley, Elen Wyn Keen, Leila Salisbury ac eraill. Ac os yw'r cylchgrawn yn adlewyrchu gwaith yn y maes, yna nid oes lle i gywilyddio nac i ymddiheuro. Mae digon o bobl yn dal i ymddiddori yn ein traddodiad o gerddoriaeth werin ac i ymchwilio i'w gefndir.

Newid mawr erbyn heddiw yw'r newid yn iaith y cylchgrawn, ac yn wir yn iaith gweithgarwch y Gymdeithas. Yn y blynyddoedd cynnar, a hyd at ddiwedd y bumed gyfrol, Saesneg oedd prif iaith y cyhoeddiad, yn unol â'r polisi a ddiffiniwyd yn 1909, ac mae'n ymddangos taw Saesneg oedd prif iaith darlithiau a chyflwyniadau a roed ar ganu gwerin. Go brin y dylem ryfeddu at hynny o ystyried y cyfnod; ond nid ffsiawn yr oes oedd yn unig. Ym mlynnyddoedd cynnar y cylchgrawn arferai'r golygydd anfon caneuon at wahanol arbenigwyr i gael eu sylwadau, ac fe gynhwyswyd y rhain gyda'r caneuon cyhoeddedig. Roedd rhai o'r arbenigwyr hyn yn Gymry, ond eraill o'r tu allan, yn enwedig Frank Kidson, Lucy Broadwood ac Annie Gilchrist, y tri ohonynt yn arbenigwyr ar ganu gwerin Lloegr. Rhag inni'n syth dybio taw gwaseidd-dra oedd hyn, dylid pwysleisio nad oedd arloeswyr casglu caneuon gwerin yng Nghymru yn eu gweld eu hunain yn gweithio'n annibynnol ar wledydd eraill. Credent fod traddodiad Cymru, er yn unigryw fel pob traddodiad cenedlaethol, hefyd yn perthyn i draddodiad Ewropeaidd. Ac felly roedd yn hollol naturiol i dderbyn barn arbenigwyr yn Lloegr oedd yn hyddysg nid yn unig yng nghaneuon Lloegr ond hefyd yng nghaneuon gwledydd eraill; roedden nhw'n gallu tynnu cymariaethau ac awgrymu perthynas rhwng caneuon Cymreig a fersiynau a geid yn Lloegr, yr Alban, Iwerddon, Ynys Manaw ac weithiau ar gyfandir Ewrop. Dylem felly beidio â bod yn sensitif am y nodiadau hynny sy'n dweud, 'A variant of the English song ...', oherwydd cadarnhau roedd y sylwedyddion hyn mai traddodiad heb ffiniau iddo yw'r traddodiad gwerin. Wedi'r rhifyn cyntaf, ac yn unol â phenderfyniad Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn Hydref 1909,¹⁴ darparwyd cyfieithiadau Saesneg o eiriau'r caneuon i hybu gwerthfawrogiad ehangach o'r traddodiad Cymreig. Ni ddylem felly weld y defnydd o'r Saesneg yn beth negyddol yn unig – roedd yn help i feithrin diddordeb cynulleidfau ehangach. Erbyn heddiw mae'r pwyslais

yn wahanol a'r Cymry'n fwy hyderus i drafod eu pethau trwy'r Gymraeg, ond mae'n dal yn bwysig i gofio am y sawl sy'n ymddiddori o'r tu allan.

Mae'n demtasiwn i geisio dyfynnu pythau difyr allan o'r cylchgrawn dros y blynyddoedd, ond rhaid bodloni ar ychydig o enghreifftiau'n unig. Cymerer, er enghraifft, y disgrifiad rhamantaidd hwn gan Lloyd Williams o'r broses o gasglu yn y dyddiau cynnar:

People who had heard them sung during their childhood begin to take an interest in the old songs. At first they have no clear recollection of them, but gradually the subconscious mind, groping after the nearly forgotten fragments, recovers the whole song. Sometime a tune is suggested by a chance word, and piece by piece it returns, sometimes taking several weeks to complete the process. Occasionally one gets a portion of a song from one singer, and another person supplies the missing parts. They are picked up in all kinds of places, in the workshop and in the train, in the country farm house and in the modern town house; they come from the mountain glens, and even from the large English towns, from the United States and from the Welsh Colony in Patagonia ...¹⁵

Neu'r geiriau hyn o 1922, yn brawf o ddylanwad y Gymdeithas yn y cyfnod hwnnw:

Judging from the extraordinary demand for lectures on old Welsh music the interest in the subject is on the increase. Not only are the lectures numerous, and spread over the whole country, but many are extraordinarily well attended. At a lecture given recently in one of the industrial centres nearly a thousand people were present; in many places the audiences average from 200 to 500.¹⁶

Ac yn yr un flwyddyn, wrth sylwi ar y rhagfarn a oedd yn parhau yn erbyn cerddoriaeth werin:

There are still a few teachers, more especially in the Higher Elementary and Intermediate Schools who cannot see any value in the cultivation of the Folk-song. They are generally good musicians, but their training has made them regard cosmopolitanism as the only road to progress. Nothing can be hoped from these good people till they understand the history of music better, and until they realize the use made of native resources and tradition in the countries whose music they admire.¹⁷

Neu beth am hyn o 1930, allan o ysgrif gan J. Owen Davies ar 'Welsh folk-song festivals in the Rhondda', sy'n brawf pendant o ddylanwad gwaith y Gymdeithas?

Since the establishment of the Festival in 1920, over one hundred of our National Airs have been learnt and sung by our school children – twenty of these have been

repeated, and ten have been called for a third time. This is a record to be proud of, and gives a faint idea of the hold our Alawon Gwerin have on the young mind of this populous area; and throughout the long winter of trade depression, destitution and poverty, the Rhondda has clung grimly to its proud title of “Cradle of Song”.¹⁸

A gallem amlhau enghreifftiau difyr, diddorol a dadlennol dros ganrif gyfan.

Mae'r dyfyniad am ganu alawon gwerin gan blant Rhondda yn cydio yn rhywbeth sydd gan Lloyd Williams i'w ddweud nid yn y cylchgrawn ond ar dudalennau'r *Cerddor* yn 1937:

Mae'n debyg nad ydyw pawb yn gwybod mai un o brif amcanion y rhai a gychwynnodd y mudiad Cân Gwerin yng Nghymru oedd casglu defnyddiau ymchwil ar gyfer yr ysgolor yn y maes hwn. Cyn belled ag yr oedd a fynno'r Golygydd â'r pwnc, hwn oedd y prif amcan, ac ni freuddwydiodd neb ohonom mai trwy fynd ar led a mynnu eu canu ym mhob rhan o'r wlad yr enillai'r caneuon sylw.¹⁹

Er nad dyma'r pwyslais mae Lloyd Williams yn ei roi fel arfer yng nghylchgrawn y Gymdeithas, mae'n bwynt diddorol; yr awgrym amlwg yw fod y Gymdeithas wedi llwyddo ymhell y tu hwnt i'w disgwyliadau yn yr effaith a gafodd ar arferion canu'r Cymry. Ond daw un thema arall i'r golwg bob hyn a hyn, sef nad yw cerddorion proffesiynol Cymru yn gwneud yn fawr o'r dreftadaeth gerddorol. Yn 1930 sonia Lloyd Williams am yr elyniaeth a fu tuag at gasglu a chadw cerddoriaeth werin:

For a considerable time after we started hardly a Welsh musician had a kind word to say for us. The only Welsh musical magazine ignored the movement completely until its activities became so obtrusive that they could not be passed over. Then the Editor solemnly warned his readers against the folly of “hunting beetles under stones”, and adjured them rather to “dig for the gold of music” – a very fortunate metaphor for us, for beetles are alive, they are often beautiful in form and colour, and wonderful in structure – more than can be said of formless, sordid lumps of ore.²⁰

Saith mlynedd yn ddiweddarach, sef yn 1937, mae'n gweld arwyddion o newid er gwell:

A gratifying change in the attitude of Welsh musicians towards our folk-songs is seen in the increased use made of them in new instrumental compositions. Within the last couple of years, quite a dozen composers have written works in which Welsh traditional music is utilised in some way or other.²¹

Ond ddeng mlynedd ar hugain wedi hynny nid oedd W. S. Gwynn Williams mor obeithiol:

I fear ... that it is still not generally realized, as stated in the 'Final Report' of the Royal Commission on University Education in Wales [1918], that "the material on which Moussorgsky and his friends set to work was certainly not richer than that which is at the disposal of the Welsh musicians today; the great fabric of Russian music which they have built up is a standing example of the value of a national movement wisely conceived and skilfully treated. Wales can do at least as well as this if she sets herself to the task." The collecting and publishing of traditional Welsh folk songs may for the time be more or less done; but it is certainly the time for us to study and understand the substance of the material that has been noted, if we are ever to be able to offer to the world a national school of music worthy of our country.²²

Os bwriad y Gymdeithas a'r mudiad canu gwerin oedd creu'r fath ysgol ymhlith cerddorion proffesiynol, go brin y gellir dweud iddi lwyddo. Ond mae lle i holi tybed a yw'r fath fwriad yn ddilys beth bynnag? Efallai mai gwell fyddai llawenhau gyda Lloyd Williams fod cyfansoddwyr Cymreig yn defnyddio themâu ac alawon traddodiadol yn eu gwaith o bryd i'w gilydd.

Beth felly fu cyfraniad y cylchgrawn dros y ganrif?

Yn gyntaf gallwn awgrymu ei fod wedi gwneud cyfraniad aruthrol i ddiwylliant y genedl trwy gyflwyno cannoedd o ganeuon gwerin a fuasai wedi eu colli oni bai am waith y Gymdeithas hon – etifeddiaeth nad yw Cymru at ei gilydd yn sylweddoli o ble y daeth. Mae'n anodd dychmygu na fyddai neb erbyn heddiw yn gallu canu 'Oes gafr eto?' yn y ffurf adnabyddus arni oni bai i'r Gymdeithas ei chofnodi a'i chyhoeddi (gydag amrywiadau) yn 1910. Ar y llaw arall mae'n drueni – er yn anochel hwyrach – mai un ffurf yn unig ar y gân honno, a llawer un arall, sy'n adnabyddus. Aeth yr elfen gymharol ar goll wrth i'r caneuon adfer eu poblogrwydd, arwydd fod y Gymdeithas trwy'r cylchgrawn wedi cyflawni llawer mwy nag a fwriadodd yn wreiddiol. Amcan y casglu oedd diogelu deunydd ar gyfer ymchwil i hen draddodiadau, nid yn y lle cyntaf i ailgyflwyno'r caneuon i genhedlaeth newydd; ond fe lwyddodd yr ailgyflwyno yn llawer iawn cynt na'r ymchwil, yn rhannol am fod y Bwrdd Addysg wedi sylweddoli yn gynnar iawn pa mor werthfawr fyddai dysgu caneuon traddodiadol yn yr ysgolion i feithrin ymdeimlad o Gymreictod. Ac fe hybwyd hyn ymhellach gan Gymrodorion Rhondda ac ardaloedd eraill a sefydlodd yr arfer o gynnal cymanfaoedd canu o alawon gwerin a chyhoeddi detholiadau ohonynt at y pwrpas. I'r graddau hynny gellir dweud bod ymddangosiad y cylchgrawn wedi creu diwylliant newydd neu wedi ailboblogeiddio hen ddiwylliant. Mae'r sawl sydd yn mwynhau'r diwylliant hwnnw ac wedi elwa ohono yn fwy niferus o dipyn nag aelodau'r Gymdeithas. Ac wrth gwrs petai'r Gymdeithas yn diflannu fory nesaf byddai'r hyn a ddiogelwyd trwy'r cylchgrawn yn ganeuon ac yn astudiaethau ar gael o hyd, ac ni fyddai neb yn gallu dweud na wnaeth Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru gyfraniad sylweddol i ddiwylliant cerddorol y genedl.

Yn ail, bu'r cylchgrawn yn fodd i ddatblygu cerddoriaeth draddodiadol yn faes ymchwil o werth. Un peth yw cofnodi a chyhoeddi caneuon, peth arall yw eu trafod yn gall ac yn wrthrychol. Fe gafwyd hyn o'r dechrau'n deg, gan y Cymry eu hunain – J. Lloyd Williams yn arbennig, D. Emlyn Evans, Harry Evans ac eraill megis E. T. Davies yn ddiweddarach, yn ogystal â'r 'allanolion' megis Frank Kidson, Lucy Broadwood ac Annie Gilchrist (a diddorol sylwi bod cerddoriaeth werin yn faes amlwg lle roedd merched ar y blaen yng Nghymru a Lloegr cyn y Rhyfel Byd Cyntaf). Penllanw'r diddordeb hwn oedd sefydlu ethnogerdoreg yn faes arbenigol ym Mhrifysgol Bangor, lle mae nifer o fyfyrwyr bellach wedi gweithio ar agweddau o gerddoriaeth draddodiadol Gymreig dan arweiniad Wyn Thomas, ac yntau wedi cyfrannu'n helaeth i'n dealltwriaeth o waith casglyddion megis Mary Davies, Grace Gwyneddion Davies a Jennie Williams. Bellach rydym yn astudio'r casglyddion a'u cyfraniad, yn ogystal â'r caneuon y gwnaethant gymaint o ymdrech i'w casglu a'u nodi. Nid oes angen gwell prawf ar werth eu gwaith na bod cenedlaethau o Gymry wedi elwa arno.

NODIADAU

* Cyflwyniad a roddwyd i gynhadledd y Gymdeithas yn Nolgellau, 26 Medi 2009.

¹ D. Roy Saer, *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru: Canrif Gron = The Welsh Folk-Song Society: a Whole Century* (Y Gymdeithas / The Society, 2006); Meredydd Evans, *Hela'r Hen Ganeuon* (Talybont: Y Lolfa, 2009), penodau 4 a 5. Gweler hefyd ymdriniaeth werthfawr Elen Wyn Keen, 'Camp cerddor a gallu gwyddonydd: J. Lloyd Williams a'i gylchgrawn', *Hanes Cerddoriaeth Cymru / Welsh Music History*, 5 (2002), 135–49 (ac yn Saesneg, 150–61).

² Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru / The Welsh Folk-Song Society A/1/1, Minutes 1908–1934.

³ Am fywyd a gyrfa Goscombe John, gweler *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951–1970* (Llundain, 1997), 88 a'r fersiwn ar-lein <http://yba.llgc.org.uk>

⁴ Ceir adlewyrchiad byw iawn o brofiadau'r dyddiau arwrol hyn yn y ddarlith ar "Y Canorion" a'r casglu cynnar a gyflwynwyd gan John Morris i gynhadledd y Gymdeithas yn y Barri yn 1965, ac a gyhoeddwyd yn *Canu Gwerin* 13 (1990), 5–28.

⁵ *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* 1 (1909–12), 17.

⁶ *CCAGC* 1 (1909–12), 'Preface'.

⁷ Trafodir hyn ymhellach yn Meredydd Evans, *Hela'r Hen Ganeuon*, pennod 5.

⁸ [J. Lloyd Williams], 'The history of the Welsh Folk-Song Society', *CCAGC* 3 (1930–41), 89.

⁹ Gellir gweld rhestr o gynnwys y casgliad hwn trwy gatalog ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru, <http://cat.llgc.org.uk>

¹⁰ *CCAGC* 3 (1930–41), 5 ('Editorial notes').

¹¹ Am y dystiolaeth o blaid derbyn 1906 yn ddyddiad cychwyn y Gymdeithas yn hytrach nag 1908, gweler Meredydd Evans, 'Dechreuadau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru', *Canu Gwerin*, 29 (2006), 3–19, ac id. *Hela'r Hen Ganeuon*, pennod 4.

¹² W. S. Gwynn Williams, 'Nodyn golygyddol', *CCAGC* 5 (1956/7–1977), 4.

¹³ D. Roy Saer, *Canrif Gron*, 9.

¹⁴ LIGC, Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru / The Welsh Folk-Song Society A/1/1, Minutes 1908–1934.

¹⁵ *CCAGC* 1 (1909–12), 20.

¹⁶ *CCAGC* 2 (1914–25), 137.

¹⁷ Ibid. 137–8.

¹⁸ *CCAGC* 3 (1930–41), 11.

¹⁹ J. Lloyd Williams, 'Y Brifysgol a'n halawon gwerin', *Y Cerddor*, 3eddd gyfres, 7 (1937), 5.

²⁰ *CCAGC* 3 (1930–41), 5.

²¹ Ibid. 114.

²² *CCAGC* 5 (1956/7–1977), [29].

CÂN ARALL ETO O GASGLIAD TAL GRIFFITH

Buddug Lloyd Roberts



Llan: Rhiamon Iffans

Yn *Canu Gwerin* 31 (2008), tt. 41–54, cyflwynwyd saith o ganeuon a godwyd oddi ar lafar gan Tal Griffith, sef Taliesin Griffith o Lithfaen yn Llŷn, a lle cafwyd nodyn ganddo yn eu cylch fe'i cynhwyswyd fel ag y'i cofnodwyd ganddo. Cyhoeddwyd cân arall o'r un casgliad yn *Canu Gwerin*, 32 (2009), tt. 21–2, a dyma'r olaf a godwyd o'r casgliad hwnnw. Golygwyd y sillafu a'r atalnodi.

Lah: G

5

10

15

25

1. Cychwynnai'r morwr llawen
I'w fordaith dros y don,
Tra dawnsia'r dyfnder dano
Fe ganai ynte'n llon.
'Rôl sibrwd i'w anwylyd,
'Pryd cawn ni eto gwrdd?'
Cusanodd hi ar lan y lli
Gan ddweud wrth fynd i ffwrdd:
'Ta-ta, tydi f'anwylyd lon,
Bydd wych, bydd ddoeth, bydd dda,
Mae sŵn y môr yn swyno 'mron,
Ta-ta, ta-ta, ta-ta.'

2. Y milwr dewr wyneba
I'r frwydr dros ei wlad,
Gan siglo dwylo ffarwel
Â'i dynner fam a thad:
'Mae gobaith dyn o'r rhyfel,'
Sibryda wrthynt hwy,
A theifl ei law gan seinio draw
Ei law ? olaf mwy
'Ta-ta, rieni, ar fy hynt
'Rwy'n mynd! Pob peth yn dda!
I'r frwydr fawr yn gynt, yn gynt,
Ta-ta, ta-ta, ta-ta.'

[Ei alaw olaf mwy]

'Canwyd gan Mrs Jones, Bryn Berllan, Pwllheli, Chwefror 1946 – fel y cofiodd hi Ap Glaslyn yn ei chanu.' – Tal Griffith.

Diolch i Dr Rhidian Griffiths am y nodyn a ganlyn ar 'Cychwynnai'r morwr llawen' [Gol].

Nodir bod Mrs Jones wedi clywed Ap Glaslyn yn ei chanu. Roedd John Owen 'Ap Glaslyn' (1857–1934) yn ddatgeinydd poblogaidd ar lwyfannau Cymru ym mlynnyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac roedd yn enwog am ganu caneuon ysgafn. Wedi gadael y llwyfan fe'i hordeiniwyd yn weinidog a bu'n gweinidogaethu yn y Gelli, Rhondda, ac yn Llanbradach ger Caerffili, lle y bu farw. Ceir cofnod byr iddo yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* dan enw ei dad, Richard Jones Owen 'Glaslyn' (1831–1909).

Enghraifft o'i waith yw'r gân hon, a gyhoeddwyd gan Gwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig yng Nghaernarfon, dan yr enw *Tal! ta!, neu can ffarwel: baritone l* y geiriau a'r gerddoriaeth gan Ap Glaslyn. Nid oes dyddiad ar y copi printiedig, ond mae catalog y Llyfrgell



Tal Griffiths, c. 1950–5.

Genedlaethol yn awgrymu 1896. Trefnwyd y gân i'w chyhoeddi gan Gwilym Rowlands, y dywedir amdano yng nghyfrwl Huw Williams, *Canu'r Bobol*, ei fod yn 'bianydd o nod o ardal Llanberis y ceir amryw gyfeiriadau ato yn rhai o gylchgronau cerddorol y naw degau [h.y. 1890au]'. Noda Huw Williams hefyd fod y gân wedi ei chanu 'laweroedd o weithiau gan y cyfansoddwr ei hun ar lwyfan y cyngerdd', felly nid yw'n syndod ei bod wedi mynd i mewn i'r traddodiad llafar.


Mae'r gân fel y cofnodwyd hi gan Tal Griffiths yn darlunio agweddau diddorol ar drosglwyddiad llafar. Mae'r geiriau'n bur gywir o'u cymharu â'r ffurf brintiedig: y 'llynell goll' yn yr ail bennill yw 'Ei alaw olaf mwy'. Ceir mwy o amrywiadau yn yr alaw, sydd yn y fersiwn llafar ychydig yn symlach nag yn y fersiwn printiedig. Newidir rhythm y gytgan, gan estyn tipyn ar hyd y nodau, ond gall fod hyn hefyd yn adleisio'r rhyddid amser a arferai Ap Glaslyn ei hun pan ganai'r gân.

Penillion 1 a 2 a gofnodir yma. Ceir dau bennill ychwanegol yn y gân gyhoeddedig.

Rhidian Griffiths

CASGLU ALAWON YN YSGOLION CEREDIGION, 1921–6

Dafydd Ifans



Yn dilyn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1906 daeth bywiogrwydd rhyfeddol a chynnydd i'r gwaith o gasglu a chofnodi alawon gwerin Cymru.¹ Yr oedd hyn yn rhan o batrwm ehangach yn Ynysoedd Prydain pan sefydlwyd cymdeithasau tebyg yn Lloegr ac Iwerddon, a phan geisiwyd gosod trefn ar y casglu, y cofnodi a'r dehongli. Yn Lloegr cafwyd cyfansoddwyr enwog fel Edward Moeran, Ralph Vaughan-Williams a Percy Grainger yn trefnu ac yn addasu alawon gwerin yn ogystal â chreu cyfansoddiadau gwreiddiol. Yn wir, yr oedd statws a bri i'r gwaith, a llawer o frwdfrydedd gwirfoddol wedi ei gyfeirio at y gweithgarwch hwn.

Torrwyd ar draws y gwaith gan y Rhyfel Mawr a'i holl erchylltra, ac yna wrth i fywyd ddychwelyd i batrwm mwy arferol gyda dyfodiad y dauddegau gwelwyd adfywiad pendant ym maes casglu a chofnodi alawon gwerin. Diau mai'r gweithgarwch hwn a fu'n sail i Syr Alfred T. Davies² a'i gydweithwyr yn Adran Gymreig y Bwrdd Addysg yn Llundain i sefydlu prosiect i ysgolion ar ddechrau dauddegau'r ugeinfed ganrif.

Bwriad y prosiect oedd cael prifathrawon cynradd i gasglu gwybodaeth werin gan eu disgyblion drwy fod y rheini'n holi perthnasau hŷn a chymdogion oedrannus am yr hyn a gofient. Ymhlith y categorïau y bwriedid casglu gwybodaeth yn eu cylch yr oedd dywediadau, penillion, geiriau i alw anifeiliaid, arwyddion tywydd, caneuon, chwaraeon plant, straeon ysbryd a thylwyth teg, hynodion tafodiaith, arferion geni, priodi a marw – yn wir pob math o arferion gwerin. Un o'r rhai a gymerodd at y gwaith o hyrwyddo'r prosiect hwn oedd yr arolygwr ysgolion David Thomas (1866–1940).³

Brodor o Lanwnnen yn ne Ceredigion oedd David Thomas, wedi ei eni ar 15 Chwefror 1866 yn fab i'r bardd a'r ysgolfeistr Dewi Hefin (1828–1909).⁴ Yn dilyn ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan aeth yn athro cynorthwyol at ei dad i Ysgol Llanarth am ddwy flynedd, ac yna bu am flyyddyn yn Ysgol Cribyn, cyn ennill ysgoloriaeth i Goleg Hyfforddi Athrawon De Cymru. Wedi dwy flynedd yng Nghaerfyrddin treuliodd dair blynedd a hanner yn athro cynorthwyol yn Ysgol Pengelli, Wrecsam, cyn ei benodi'n brifathro ar Ysgol Borth-y-gest, Porthmadog. Yn 1892 enillodd radd allanol o Brifysgol Llundain, a'r flyyddyn ddilynol fe'i penodwyd yn Arolygydd Ysgolion Cynorthwyol o dan y Bwrdd Addysg.

Bu'n arolygydd ysgolion yng nghanolbarth Cymru am dair blynedd ar ddeg ar hugain rhwng 1893 a'i ymddeoliad yn 1926. Treuliodd y deng mlynedd olaf yn gwasanaethu ysgolion Ceredigion yn unig. Trefnodd lyfrgelloedd i bob ysgol yng Ngheredigion gan gyflenwi un

fil ar bymtheg o lyfrau i ysgolion y sir, mwy nag a geid mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Gyfunol yn ôl nifer y trigolion. Yr oedd ei gartref yn Aberystwyth a bu'n weithgar iawn gyda Chymdeithas Hynafiaethwyr Ceredigion, yn Ysgrifennydd (1925–30) ac yn Gadeirydd (1933–40). Cafodd OBE yn 1918 am ei waith yn Ysgrifennydd Pwyllgor Cynilion Rhyfel Sir Aberteifi a bu'n weithgar hefyd ar bwyllgorau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn Gadeirydd Cronfa'r Adeiladau rhwng 1928 a 1930, ac yn aelod o Lys y Llywodraethwyr rhwng 1930 a 1940.

Defnyddiodd ei awdurdod fel Arolygwr Ysgolion Ceredigion yn y daudddegau cynnar i bwysu ar brifathrawon y sir i gymryd rhan yn y prosiect casglu llên gwerin a chafwyd ymateb brwd ac eang i'r gweithgarwch gyda phedwar ugain ac un o ysgolion yn anfon eu casgliadau ato o bob rhan o'r sir, yn llythrennol o'r A i'r Y: o Aberaeron i Ystumtuen.⁵ Da yw medru adrodd bod y rhan helaeth o'r deunydd hwn wedi ei gadw ymhlith papurau David Thomas yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac wedi ei restru'n fanwl yn 1980 yn ôl ysgolion a chan nodi'r categorïau perthnasol ymhob achos.

Un o'r categorïau a ddefnyddiwyd wrth ddisgrifio'r deunydd a gasglwyd yw 'M' ar gyfer cerddoriaeth, caneuon, emynau ac alawon. Ceir penillion a geiriau caneuon a rhigymau mewn tua thrigain o'r casgliadau hyn, ac ymhlith y deunydd hwnnw ceir rhai eitemau mewn hen nodiant, ond yn amlach na phheidio mewn sol-ffa. Rhyw bedair ysgol ar ddeg sydd yn cofnodi cerddoriaeth y caneuon gwerin, sef:

- B3 Atpar
- B24 Cribyn
- B25 Cross Inn (Ceinewydd)
- B39 Llanddeiniol
- B43 Llanfihangel-y-Creuddyn
- B44 Llangeitho
- B45 Llangwryfon
- B48 Llanrhystud
- B49 Llanwenog
- B54 New Court/Cwrtnewydd
- B58 Pennant
- B64 Pont-siân
- B75 Tregaron (Ysgol y Cyngor)
- B76 Tregaron (Ysgol yr Eglwys)

Yn Ysgol Atpar (B3) cofnodwyd pennill o gân gan R. Lloyd Lewis, Trefhedyn, ynghyd â'r sol-ffa. Ychwanegwyd fersiynau hen nodiant i'r pedair enghraifft gerddorol sy'n dilyn.

Doh: G

Ar ôl pri - o - di mae gweld ca - le - di A byw'n y lle - ty llwm

7 m : s . s | m : d | r : f . f | r : t . t | : d | m . m : d . d | d :

Yn trin plant by - chain A rhei-ny'n gwaw-chan Wel bu - an bydd hi'n drwm.

Yn Ysgol Pennant (B58) ceir fersiwn sol-ffa o 'Eliza o Dalysarn',⁶ ac yn Ysgol Pontgarreg ger Llangrannog (B62) cofnododd Ellen Jones, yr athrawes, nifer o ganeuon gan gynnwys fersiwn sol-ffa o 'Cân Dyffryn Cletwr'.

Mae Jane Williams o Ysgol Llangeitho (B44) yn cofnodi saith pennill o'r gân 'Y deryn bach syw' gyda sol-ffa. Mae'n rhaid nad oedd hi'n gyfarwydd â'r gair 'syw' gan mai 'byw' sydd yn ei fersiwn hi:

Doh: G

Beth wyt ti mo'yn fan y - ma, De-ryn bach syw? Mo-fyn gia-len, os by-ddai byw.

Beth wyt ti mo'yn fan yma, deryn bach byw?
Mofyn gialen, os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mo'yn â gialen, deryn bach byw?
I wado ngheffyl os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mo'yn ceffyl, deryn bach byw?
I fynd i'r farchnad, os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mo'yn yn y farchnad, deryn bach byw?
I brynu halen, os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mofyn â halen, deryn bach byw?
I ddodi'n fy nghawl, os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mofyn â chawl, deryn bach byw?
I ddodi'n fy mola, os bydda i byw.

Beth wyt ti'n mo'yn â bola, deryn bach byw?
Oni bai mola byddwn i ddim byw.

Cyhoeddwyd fersiwn arall o'r gân hon yn y cywair lleddf yn CCAG, cyf. II, 135–6, ond pum pennill a geir yno.

Mae plant Ysgol yr Eglwys, Tregaron (B76), yn nodi 'Cân y Gwahoddwr'⁷ ac am ryw reswm cadwyd 'Cân Calennig Plant Plwyf Ysgubor-y-Coed' gyda sol-ffa yn y grŵp hwn,⁸ a rhywun yn Ysgol y Cyngor, Tregaron (B75), yn cofnodi pennill Saesneg (gyda hen nodiant) o'r gân Dibyn a Dobyn, sef “‘Where are you going?’, says Milder to Melder’.

Cofnodwyd dwy gân gyda sol-ffa yn Ysgol Llangwryfon (B45) gan nodi Miss Kate Ellis, Llangwryfon, yn ffynhonnell. 'Y Tri Brawd' yw teitl un, ceir y gân hon yn *Forty Welsh Traditional Tunes* [= FWTT o hyn ymlaen], 70–1, ond ar dôn wahanol:

Doh: A



Mae'r llall yn dwyn y teitl 'Hen gerddi merched ieuaingc yr oes or blaen':

Doh: F

Rwy'n ho-gen fach ieu-ange, Yn cer-dded yn syth. A che-nyf gar-ia-don, Mor am-led ar gwlith Ceir

gwe-led nhw'n dy-fod, O'r drêf ac o'r wlad, I fi gael eu dan-gos I hên wr fy nhad,

I hên wr fy nhad, I hên wr fy nhad, I fi gael eu dan-gos i hên wr fy nhad.

Yn Ysgol yr Eglwys, Llanddeiniol (B39), y cafwyd yr ymateb mwyaf brwd i'r cynllun drwyddi draw, a hynny gan Mary Jones y brifathrawes, ond prin yw'r caneuon a gofnodwyd yno. Nid nepell oddi yno, yn Llanrhystud (B48), mae J. Phillips o Ysgol yr Eglwys yn cofnodi pedair cân ynghyd â'r sol-ffa, sef 'Da yw swllt', y gân facaronig 'Dingle Ding Joseph' a ddisgrifir fel 'Cân hen felinydd wrth ei waith', 'Cân y Wraig Euog' ac 'Y Lleuad'.⁹

Mae'n amlwg y byddai'r plant yn dibynnu ar arbenigwyr lleol wrth holi pobl hŷn o fewn eu cymdeithas am ddefnyddiau gwerin. Gydag un wraig, Mary Thomas, Pantyclochydd, Llanwenog, fe ddyfynnir caneuon a gwybodaeth werin ganddi mewn mwy nag un ysgol, sef Llanwenog (B49) a Phont-siân (B64). Yn wir, fe drosglwyddodd Mary Thomas ei chasgliad gwerin ynghyd â nifer o'i phapurau (yn dyddio rhwng 1830 ac 1847) i David Thomas yn 1926 ac maent wedi eu diogelu ymhlith ei bapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn Ysgol Pont-siân (B64), er enghraifft, fe restrwyd y caneuon canlynol, ynghyd â'r sol-ffa, o gasgliad gwerin Mary Thomas, Pantyclochydd: 'A ei di'r perot parchus, pur'; 'Mae nghariad i yng ngolwg rhai'; 'Mae nghariad i leni fel gwynt o flân glaw'; y diwn gron 'Beth wnaeth Morgan?/Ble mae Daniel?'; 'Cân y bachgen Main' ar y geiriau 'O fel yr oedddwn i'n rhodio'r gaeaf'; 'Hen ffon fy Nain'; penillion lleol o waith John Thomas, Abertegan; a'r faled adnabyddus 'Y Blotyn Du'; ymhlith casgliad Ysgol Llanwenog (B49), mae amrywiadau ar eiriau'r gân 'Gen i farch glas' sy'n nodi Mary Thomas, Pantyclochydd, unwaith eto fel ffynhonnell.

Yn Ysgol Cross Inn ger Ceinewydd (B25) cafwyd helfa o saith cân yn dwyn fersiwn sol-ffa o'r gerddoriaeth a nodiadau ar y caneuon gan y sawl a'u casglodd. Mewn nodyn yn llaw

David Thomas, dyddiedig 26 Hydref 1928, dywedir: 'These songs were collected by Mr G. Ifor Davies who was Headmaster of Cross Inn C[ouncil] School Near New Quay, for many years. Mr Ivor Davies retired a few years ago, and now lives at Cardiff.' Defnyddiwyd y mwyafrif o'r caneuon hyn yn FWTT, ac mae David Thomas wedi ysgrifennu'r geiriau 'Included' neu 'omit' ar y caneuon. Ceir yn y casgliad fersiwn o gân y Fari Lwyd, tair o ganeuon gyrru'r ychen, a gân sy'n dwyn y teitl 'Nos Sadwrn';¹⁰ y ddwy eitem mae cynhwyswyd yw 'Ffon fy Nhâd' a 'Hen Alaw' sydd heb eiriau ynghlwm wrth y gerddoriaeth.¹¹ Ymgorfforwyd rhywfaint o gynnwys y nodiadau a atodir gan G. Ivor Davies wrth y caneuon, yn y nodiadau i'r gyfrol FWTT, tt. 81–3. Awgrymir ganddo yn ei nodiadau fod defod y Fari Lwyd yn digwydd yn ardal Ceinewydd tua hanner can mlynedd ynghynt, sef tua 1870 ac mae'n nodi ei ffynonellau am y caneuon gyrru'r ychen – y gyntaf 'fel ei clywais gan wâs fferm "Lantarn Gymru" ym mhlwyf Llanllwchaiairn' a'r ddwy arall 'gan y diweddar hen frawd Doniol Thomas Evans, Tynant, Llanllwchaiairn'. Yn eu herthygl 'Canu'r Ychen' mae Phyllis Kinney a Meredydd Evans yn taflu amheuaeth ar ddilysrwydd cysylltu'r canu ychen â Cheredigion:

Mae lle i amau hefyd ynglŷn â phriodoli caneuon ychen i Geredigion, fel y gwneir yn *Forty Welsh Traditional Tunes* (1929). Hawlir yno bod tair cân ychen yn perthyn i'r rhan honno o'r wlad ond y gwir yw eu bod wedi eu hargraffu gryn ddeugain mlynedd yn gynharach yn *Y Cerddor*, ac fe'u cysylltir yn y cylchgrawn hwnnw â Morgannwg a Brycheiniog.¹²

Yr oedd dau o'r rhai a fu ynglŷn â chyhoeddi FWTT yn brifathrawon ar ddwy o ysgolion Ceredigion yn ystod cyfnod y prosiect hwn. Nodir John Ffos Davies, (1882–1931) prifathro Ysgol Cribyn, yn brif ffynhonnell y caneuon a gynhwysir yn y gyfrol honno.¹³ Mae'n amlwg o'r ohebiaeth a gadwyd yn ffeil Ysgol Cribyn (B24) fod J. Ffos Davies wedi anfon ei gasgliad o ganeuon gwerin at David Thomas yn 1923, ond nid yw'r casgliad hwnnw wedi ei gadw o fewn y ffeil honno. Dywed Ffos Davies mewn llythyr, dyddiedig 5 Mehefin 1923, wrth anfon y casgliad ato: 'All the songs in this book are absolutely original as far as the "Journals of Welsh Folk Songs" published are concerned but a different version of one of them is given.'

Yr oedd Ffos Davies eisoes wedi disgrifio ei ddull o gymharu a chofnodi mewn llythyr blaenorol at David Thomas, dyddiedig 23 Mai 1923:

I have made copies of *all* the airs & words published by the Welsh Folk Song Society from the books kindly lent by the National Library through Mr Griffiths, these will prove invaluable to me – not only in order to ascertain whether the airs have previously been published or not, but also to compare the versions of Mid Cards with those from other parts of Wales which *have* been published, for instance I found the ballad 'Ffarwel i Langyfelach Ion' published in the Journal in two modes, one in

the major & the other in the minor, but the air sung in Cribyn & Llandyssil differs to a great extent – showing more of the old ‘lilting’ movement coupled with phrases giving better harmony.

O safbwynt nodi ei ffynonellau dywed:

I have made a great ‘find’ of old ballads, David Jones Creuddyn Bridge Silian has very kindly placed all his collection at my disposal – to the number of close upon 500. The work has been a life long hobby with him & he secured the second prize for the ‘Best collection of Ballads’ at the Carmarthen National Eisteddfod [1911] while J. D. Lewis Gomerian Press Llandyssil secured the first.¹⁴

Wrth adrodd ei hanes, fe ddisgrifir gwaith Ffos Davies yn casglu gan Meinir Angharad Jones fel hyn:

Âi ati i gasglu nid yn oeraidd academiaidd o gwmpas yr ardal, ond yn anffurfiol fel ffrind a chymydog. Dyna, mae’n sicr, paham y mae ei gasgliad yn unigryw. Fe’i cofir gan Mrs Martha Thomas, Cribyn yn teithio cryn bellter i gasglu, a hynny yn ei fodur tair olwyn. Roedd yn gerbyd hynod am fod iddo ddwy olwyn yn y cefn ac un olwyn ar yr ochr dde yn hytrach nag yn y lle arferol, sef yn y canol ar flaen y car. Casglai yn agosach i’w ardal hefyd, er enghraifft, cafodd rai o’r caneuon sydd yn ei gasgliad gan blant ysgol Cribyn. Cynigiai swllt o arian fel gwobr i’r plentyn a ddeuai â’r nifer mwyaf o ganeuon iddo. Yn ôl yr hanes, crwt o’r enw ‘Jac y Felin’ a enillodd y wobr. Clywsai’r caneuon gan ei fam-gu, a feddai ar gof diarhebol. Ffynhonnell gyfoethog arall i’r casglwr yn y dauddegau oedd hen ŵr o’r enw Dafydd Jones, Banc, Maesymeillion. Fe’i ganed tua 1830 ac fe gofiai yntau ganeuon a glywodd gan ei fam-gu pan oedd ef yn llanc ganol y ganrif. Roedd y caneuon hyn felly o leiaf cyn hyned â’r ddeunawfed ganrif. Cafodd Ffos Davies hefyd ganeuon gan Miss Evans, Tŷ Capel, Cribyn, a adwaenid yn lleol fel ‘Ann Cowman’. Un arall o Gribyn oedd Thomas Herbert, Tan Gaer (tad Mrs Martha Thomas) ac ef a roddodd rai o’r caneuon hynaf i Ffos. ... Cofnodai J. Ffos Davies yr alawon oddi ar wefusau’r bobl, ac mewn sol-ffa.¹⁵

Ar fater cyhoeddi casgliad Ffos Davies yn rhan o FWTT, dywed Meinir Anghard Jones:

Pan oedd Ffos yn brifathro yn ysgol Cribyn ymwelwyd â’r ysgol dan [sic] David Thomas, Arolygydd ei Mawrhydi. Fe ddigwyddodd daro ar y pentwr llyfrau ymarfer, cyffredin-yr-olwg a oedd ar ddesg Ffos Davies. Pan ymholodd ynglŷn â’u cynnwys cafodd wybod mai casgliad ydoedd o ganeuon gwerin a gasglwyd gan Ffos ei hun. Taniwyd chwilfrydedd Thomas. Fe astudiodd y casgliad ac awgrymodd yn gryf y dylid ei gyhoeddi. Cytunodd Ffos Davies ac aeth Thomas ag ef at Gymdeithas

Hynafiaethau Ceredigion i'w ystyried. Aeth misoedd heibio heb i ddim ddigwydd, a'r digwyddiad nesaf oedd i gasgliad gorffenedig, argraffedig ddod o'r wasg, ac i un copi gael ei ddanfoni i ysgol Cribyn.¹⁶

Mae tystiolaeth y llythyr, dyddiedig 5 Mehefin 1923, a ddyfynnwyd uchod yn awgrymu nad felly yn union y digwyddodd pethau, ond bod Ffos Davies wedi anfoni ei gasgliad at David Thomas o'i wirfodd.

Un eitem ddiddorol a gadwyd yn ffeil Ysgol Cribyn (B24) yw geiriau carol blygain faith sy'n dechrau â'r llinell 'Pob perchen cred a bedydd...', heb nodi'r alaw nac enw'r bardd. Ceir dwy gerdd, y naill gan Huw Jones, Maesglasau, a'r llall gan Jonathan Hughes sy'n dechrau â'r un llinell ond sy'n diweddau'n wahanol.

Yr ail brifathro a fu â rhan yn mharatoi'r gyfrol FWTT oedd David Rees 'Cledlyn' Davies (1875–1964), prifathro Ysgol Cwrtnewydd.¹⁷ Yr oedd Cledlyn yn fardd cadeiriol cenedlaethol a oedd wedi ennill ar awdlau 'Y Proffwyd' yng Nghorwen (1919) a 'Dychweliad Arthur' yn yr Wyddgrug (1923). Mae'n amlwg o ffeil Ysgol Cwrtnewydd (B54) fod Cledlyn a David Thomas wrthi'n cydweithio ar FWTT yn 1928 a 1929. O fewn y ffeil honno ceir llawysgrif sy'n dwyn y teitl 'Caneuon Gwerin Ceredigion' sef geiriau deunaw o ganeuon gwerin, rhifau 1–17 a rhif 32 yn FWTT. Dywed E. D. Jones yn y *Byugraffiadur* am y gwaith paratoi: 'Ar ran Cymdeithas Hynafiaethwyr Ceredigion golygodd ef y penillion (a gasglwyd gan mwyaf gan John Ffos Davies) a D. J. de Lloyd (*Bywg.* 2, 11) y miwsig yn *Forty Welsh traditional tunes* (1929).' Barn Meinir Angharad Jones oedd nad oedd angen ymyrraeth Cledlyn o gwbl yn y fenter:

Dewiswyd D. Cledlyn Davies, bardd ac ysgolfeistr yng Nghwrtnewydd i addasu'r geiriau. Ni wyddys yn hollol pam yr aed ato ef, ar wahan i'r ffaith ei fod yn brifardd. Roedd Ffos Davies ei hun yn ddigon cymwys i drefnu'r gwaith. Hyd yn oed pe nad ymddiriedasai Thomas yn nawn Ffos Davies roedd ganddo ffrindiau yn yr ardal a oedd yn feirdd safonol, parod eu cymwynas – Sarnicol, E. O. James a'u bath.¹⁸

Cred Meinir Angharad Jones fod gwaith Cledlyn yn addasu'r geiriau wedi amharu ar gasgliad gwreiddiol Ffos Davies:

Yr hyn a wnaeth Cledlyn oedd safoni'r dafodiaith. ... Mae tafodiaith yn rhoi blas arbennig i gân, ac yn ei lleoli mewn ardal arbennig. Collir y blas hwn wrth safoni. Roedd Cledlyn hefyd wedi ychwanegu geiriau newydd sbon i rai o'r caneuon ... ac wedi gadael rhai penillion gwreiddiol allan. Gwnaed y cyfan hyn yn ddiamrwobod i Ffos Davies.¹⁹

Mae'n amlwg hefyd mai ailbobiad o nodiadau Ffos Davies a geir ar ddiwedd FWTT ond nid oes cydnabyddiaeth iddo fel ffynhonnell yr wybodaeth. Collwyd ychydig o sylmrwydd

a naturioldeb yr alawon hefyd yn sgil gwaith David de Lloyd yn trefnu'r alawon. 'Roedd yna ryw fath o gyfiawnhad dros hyn o ystryried athrylith gerddorol de Lloyd, a dyma efallai'r esboniad dros ymddiried iddo'r gwaith o drefnu'r alawon.'²⁰ Cyhoeddwyd FWTT fel cyfrol chwech yng nghyfres *Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Ceredigion* yn 1929.

Yn ffeil Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn (B43) fe gadwyd casgliad o garolau gan Miss Marian Jane Evans, un o athrawesau'r ysgol; mae'r casgliad yn dwyn y teitl 'Hen Garolau'. Ceir ganddi gasgliad o saith o garolau plygain, y gyntaf a'r olaf yn dwyn fersiwn sol-ffa o'r gerddoriaeth; ceir fersiynau hen nodiant o alawon y pum carol arall. Dywed Marian Jane Evans mewn nodyn ar ddechrau'r gwaith: 'I have copied these Carols from the original but had much difficulty in making out the words.'

Cymerir teitl y garol gyntaf o linell gyntaf y garol, sef 'Yn enw Duw yn dy deml di'. Dywedir amdani mewn nodyn rhagarweiniol:

Nid oes gwybodaeth faint yw oedran y Garol hon, ond y mae sicrwydd ei bod dros gant oed. Adnabyddir hi gan y trigolion fel 'Carol Eben Hughes'. Arferai y côr canu fynd fynny i'r Allor i ganu hon yn y Gwasanaeth Foreuol sef y Plygain, ar foreu Nadolig.

Cofnodwyd chwe phennill o ddeunaw llinell yr un. Gelwir yr ail garol yn 'Anthem Nadolig' ac mae'n dechrau â'r geiriau 'Hosanna heddyw sydd' a dyna a geir hefyd fel teitl uwchben y gerddoriaeth. 'Clywch gydsain yr angylion gwir' yw'r teitl uwchben cerddoriaeth y drydedd garol a cheir naw llinell o eiriau gyda pheth ailadrodd sy'n rhoi naws anthem iddi. 'Hosanna Haleliwia' yw'r bedwaredd garol gyda phedwar pennill a thôn gyfarwydd. Cyhoeddwyd hon yn y gyfrol T. Jones (Didymus ap Ioan), *Y Degtant* (Nannerch, 1858), tt. 23-6. Mae'r bumed garol hefyd yn gyfarwydd gyda phedwar pennill o'r garol 'Deffro ddaear, llawenha' o waith Ceiriog a'r dôn arferol o waith Owen Jones, Pentrefoelas.²¹ 'Cyduwn oll i seinio cân' yw teitl y chweched garol a cheir pum pennill wyth llinell gyda pheth ailadrodd. Mae'r garol olaf yn burfaith, yn ddeuddeg pennill o ddeuddeg llinell. 'Holl blant y byd' yw'r teitl a hwnnw'n seiliedig ar y llinell gyntaf: 'Holl blant y byd rai clyd o clywch'. Nid oes enw bardd na chyfansoddwr y gerddoriaeth wrth unrhyw un o'r carolau hyn. Ni chysylltir plwyf Llanfihangel-y-Creuddyn â'r traddodiad plygain erbyn hyn, ond mae'n amlwg oddi wrth nodyn Marian Jane Evans ar ddechrau'r garol gyntaf fod y traddodiad yn fyw ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Defnyddiodd David Thomas ei ddylanwad fel Arolygydd Ysgolion i bwrpas da drwy ofyn i holl ysgolion Ceredigion gymryd rhan yn y prosiect llên gwerin hwn ar ddechrau daudddegau'r ugeinfed ganrif. Beth bynnag a gredwn am y modd y cafodd John Ffos Davies a'i gasgliad o alawon gwerin ei drin wrth baratoi FWTT, mae'r deunydd wedi ei gadw a'i ddiogelu rhag mynd i ebargofiant ac mae trefniannau David de Lloyd wedi eu defnyddio ar hyd y blynyddoedd oddi ar hynny i boblogeiddio'r caneuon hynny.

NODIADAU

¹ Hoffwn ddiolch i Dr Meredydd Evans, Phyllis Kinney a Dr Rhidian Griffiths am eu cyngor a'u cymorth parod gyda'r gerddoriaeth a drafodir yn yr erthygl hon.

² Syr Alfred T. Davies, CB (1861–1949), gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950* (Llundain, 1970), t. 7.

³ Ar David Thomas (Aberystwyth) gw. y rhagymadrodd manwl a luniwyd gan Gordon A. Jones yn 1980 i'r rhestr o bapurau a gyflwynwyd gan David Thomas i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ychydig cyn ei farwolaeth yn 1940.

⁴ Ar Dewi Hefin gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t. 884, *s.n.* Thomas, David (1828–1909) ac yn LIGC, Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price (Aberdâr), cyf. XXVI, t. 140.

⁵ Amlinellir y prosiect hwn yn David J. Saer & David Thomas, 'Notes and Queries for Local Research in Cardiganshire', *Cylchgrawn Cymdeithas Hynafiaethwyr Ceredigion*, cyf. 4 (1926), 82–90, lle ceir rhestr o'r categorïau perthnasol, a chyfarwyddiadau ar sut i weithredu'r prosiect.

⁶ Cyhoeddwyd 'Lisa o Dal-y-sarn' yn Cledlyn Davies & David de Lloyd, *Forty Welsh traditional tunes* (Oxford, 1929), yn rhif 9, tt. 18–19 [= FWTT]. Ceir y nodyn canlynol ar d. 81 o FWTT: 'Cyhoeddwyd hon gan Ieuan Ddu yn 1845 yn ei "*Cambrian Minstrelsy*"; ond cyn cael benthycu copi o'r llyfr hwnnw gan Mr. David Thomas, O.B.E., cofnododd y casglydd, Mr J. Ffos Davies, yr alaw fel y datgenid hi gan Mr. David Jones, Melin Hafodwen, Cribyn; yna pigodd y geiriau i fyny o gof Mr. James Lewis, Fflux, dyffryn Grannell. Cenir y gân o hyd gan hen frodorion bro Aeron.'

⁷ Cadwyd fersiynau o 'Cân y Gwahoddwr' gan Ysgol Llechryd (B50), ac mae dau gopi yng nghasgliad Ysgol Blaencaron (B7) yn ogystal.

⁸ Diau mai eitem wedi ei chamleoli wrth ddsbarthu'r archif yw hon. Ceir rhai enghreifftiau eraill o gamleoli o bryd i'w gilydd o fewn yr archif a chyfunir eitemau o ysgolion gwahanol, e.e. Cross Inn (Llan-non) a Cross Inn (Ceinewydd) yn B25.

⁹ Cyhoeddwyd y pedair cân yn FWTT ac yno ar d. 83 dywedir '29 Rhybudd i'r Carwr, 30 Da yw Swllt, 31 Caru'r Lleud, a 37 Dingle, ding Joseff - Bu i'r pedair alaw, ynglyn [*sic*] â'u geiriau, gael eu casglu gan Mr J. Phillips, Llanrhystyd.'

¹⁰ Er mai *omit* a geir yn y llawysgrif yn David Thomas B25 fe gynhwyswyd y gân hon yn FWTT, tt. 16-17, yn dwyn y teitl 'Nos Sadwrn y gweithiwr'. Wrth droed y gân hon yn y

llawysgrif ceir nodyn gan G. Ivor Davies fel a ganlyn: 'Cafwyd y gân hon a'r geiriau mewn llawysgrif yn un o hen lyfrau John Jenkin Rees, Saermaen, Ceinewydd – wedi ei nodi yn anamlwg yn yr Hen Nodiant.' Cyhoeddwyd cân wahanol gyda theitl tebyg yn CAGC, III, rhifyn iv (1941), t. 170, honno o gasgliad Christopher B. Williams, 'Alaw Ingli', Llanelli. Yno ceir y nodyn 'Not distinctively Welsh. There is a Westmoreland dance tune and song, 'Oh, Saturday night is coming on, and I shall see my dear,' which begins rather like this. – A.G.G.'

¹¹ Cân gymharol ddiweddar yw'r gyntaf ond mae'r 'Hen Alaw' yn fwy diddorol. Mewn nodyn wrth odre'r gerddoriaeth ceir: 'Rhywbeth yn debyg i'r uchod yw yr alaw a glywais yn cael ei chanu yn aml gan yr hen wr oedd unwaith yn "codi y canu" yn un o gapelau Ceinewydd – sef "Shaki'r Sâr", ar eiriau Glan Geirionydd yn dechrau "Fenyw fwyn, gwrando gwyn &c.". Cyfeiriad sydd yma at y gerdd 'Ymdrech Serch a Rheswm', yn Evan Evans (Ieuan Glan Geirionydd), *Geirionydd* (Rhuthyn, [1862]), tt. 172–4. Cyhoeddwyd y gân yn Mervyn Roberts, *Chwe chân werin Gymreig* (Llangollen, 1938), t. 6. Mae'r alaw yn addasiad o 'Rosslyn Castle' ac yn debyg i 'Cân Dai'r Cantwr', gw. CAGC, V, 14–15, a hefyd Phyllis Kinney a Meredydd Evans, *Canu'r Cymry* ([Pen-y-groes, 1984]), t. 9.

¹² Phyllis Kinney a Meredydd Evans, 'Canu'r Ychen', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 1986, 110. Er chwilio map degwm plwyf Llanllwchaearn, o'r 1840au, a mapiau cyfoes, methwyd â chanfod 'Lantarn Gymru' yn digwydd yn enw fferm yn y plwyf hwnnw. Hoffwn ddiolch i Mrs Mair Evans, Ceinewydd, a fu'n holi cymdogion a chyfeillion ar fy rhan am fodolaeth y fferm hon. Nid oedd neb wedi clywed am y fath enw erioed, ffaith sydd eilwaith yn taflu amheuaeth ar ddilysrwydd gwybodaeth G. Ivor Evans.

¹³ Crybwyllir J. Ffos Davies yn ffynhonnell dau ddwsin o'r deugain cân a gynhwyswyd yn FWTT yn ôl y nodiadau ar y caneuon ar dd. 81–3. Ceir hanes bywyd J. Ffos Davies a disgrifiad o'i waith yn casglu alawon gwerin gan Meinir Anghard Jones, 'J. Ffos Davies, casgylldd caneuon gwerin Ceredigion', *Canu Gwerin*, 16 (1993), 20–7. Cedwir ei lawysgrifau yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

¹⁴ Cyfeirir at gasgliad David Jones, Pont Creuddyn, yn y nodiadau i FWTT, t. 81: 'Cred Mr. D. Jones, Creuddyn Bridge, Llanbedr, mai J.J., Glanygors, ydyw awdur y geiriau [Llygoden Fawr y Wlad]'. 'Gwelwyd y geiriau [Twll Bach y Clo] mewn casgliad o faledau sydd ym meddiant Mr. D. Jones, Creuddyn Bridge.'. 'Yr alaw, a'r geiriau [Yr Hogen Goch] allan o gasgliad D. J., Creuddyn Bridge.'. Wrth sôn am Ffos Davies yn casglu 'Gorthrwm y Gweithiwr' dywedir 'a chan Mr. David Harries. Llechwedd-deri, y cafodd y pennill cyntaf a'r alaw, a chopiodd y gweddill o'r penillion allan o gasgliad baledau D. J. Creuddyn Bridge'. Yn olaf dywedir am Ffos Davies wrth drafod 'Nos Sadwrn y Gweithiwr', 'a chopiwyd y faled ganddo allan o gasgliad D. Jones.'.

¹⁵ Meinir Angharad Jones, *art.cit.* 22–3.

¹⁶ Ibid. 23.

¹⁷ Am hanes bywyd Cledlyn gw. erthygl E. D. Jones yn *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951–1970* (Llundain, 1997), t. 25.

¹⁸ Meinir Angharad Jones, *art.cit.* 23.

¹⁹ Ibid. 23.

²⁰ Ibid. 24.

²¹ Cyhoeddwyd y garol hon yn Rhiannon Ifans, *Yn Dyrfa Weddus* (Aberystwyth, 2003), tt. 109–111, ac yn Arfon Gwilym, *Hen Garolau Cymru* ([Tal-y-sarn]: Cyhoeddiadau Gwynn, 2006), tt. 38–9.

CANU A CHYFLWYNO'R ALAW WERIN

Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol banel o arbenigwyr ym maes cerddoriaeth werin sy'n cydweithio gydag aelodau'r pwyllgor Alawon Gwerin lleol. Rhan bwysig o waith y Panel yw monitro ac argymhell gwelliannau yn yr adran Alawon Gwerin.

Roedd aelodau'r Panel yn ymwybodol bod rhai cantorion dawnus yn cystadlu mewn hyd at bedwar math gwahanol o gystadleuaeth, sef canu gwerin, cerdd dant, y gân gelf, a'r unawd sioe gerdd. Wrth gwrs, mae gan bob maes ei arddull arbennig ond nid yw hynny'n amlwg i bob cystadleuydd. Teimlai aelodau'r Panel y byddai o fudd pe cynigid arweiniad clir ynglŷn ag arddull canu gwerin digyfeiliant (gan fod holl gystadlaethau canu gwerin ar brif lwyfan y brifwyl yn ddigyfeiliant).

Gwahoddwyd D. Roy Saer, aelod o'r Panel a chyn-olygydd y cylchgrawn hwn, i gynnig canllawiau. Cynigiodd ganllawiau yn seiliedig ar erthygl a olygwyd ganddo yn *Canu Gwerin* 1980, erthygl a oedd yn seiliedig ar sgwrs a roddodd Emrys Cleaver i Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1958. Mae'r Panel yn unfrydol yn argymhell y canllawiau hynny.

Wrth gwrs, mae Eisteddfod yr Urdd a llu o eisteddfodau llai yn cynnig cystadlaethau canu gwerin hefyd. Gobeithio y bydd y canllawiau o fudd i gantorion, athrawon a beirniaid y tu allan i'r Brifwyl, o gofio nad yw pob beirniad cerdd mewn eisteddfod leol yn gallu bod yn arbenigwr ar faes canu gwerin. Gobeithio hefyd y bydd y canllawiau yn ymddangos ar wefannau'r Brifwyl a'r Gymdeithas hon maes o law, yn ogystal ag mewn chyhoeddiadau eraill sy'n hybu cerddoriaeth werin. Maen nhw'n werth i'w darllen, nid yn unig am eu harweiniad doeth ond hefyd am ambell awgrym digon gogleisiol.

Talfyriad o sgwrs a draddodwyd yn 1968 gan Emrys Cleaver Llywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Mae yna reolau, mae yna dechneg, i'r gân gelf, a thechneg i'r lleisyydd. Mae yna safonau arbennig ynglŷn â chynhyrchu llais. Mae dehongliad y gân gelf hefyd yn weddol eglur. Cân yr awdur yw hi, ac mae ei dehongliad hi, i raddau, wedi cael ei benderfynu ymlaen llaw i chi, a rhaid i chi barchu dymuniadau'r awdur.

'Does dim dysgu yn yr ystyr yma ar y gân werin. 'Dyn ni ddim yn dysgu hon wrth reolau, neu yn ôl y dechneg arferol. Mae'n hawdd 'nabod y cystadleuwyr sydd wedi cael eu *dysgu* n ormodol fel y cyfryw. Mae plant yn cael eu dysgu'n ormodol o lawer iawn. Mae'n nhw'n mynd i *unawdu*, canu'r unawd fawr ar y llwyfan yn hytrach na chanu a chyflwyno'r alaw werin, yn naturiol ac yn ddiroddes.

Mae'r gân werin, o ran ei chyflwyno a'i chanu, ar ei phen ei hun. I ddechrau, nid cân ar gopi oedd hi o gwbl, ond cân ar lafar, wedi'i throsglwyddo i lawr o enau i enau, o gof i gof, o genhedlaeth i genhedlaeth, ac wedi'i chanu a'i chanu a'i newid a'i newid. Os yw cân werin wedi ei dysgu o gopi, mae mwy o *ryddid* i chi ei mynegi hi, a mynegi eich hunan drwyddi, fel y mynnoch chi. Cyn belled ag y mae amser, rhithm a phethau elfennol felly yn y cwestiwn, cedwch siâp neu ffurf yr alaw. Cedwch nodau'r alaw hefyd – ond os bydd yna ambell nodyn arall yn dod i fewn, wel, popeth yn iawn, os nad yw hynny'n sbwyllo'r alaw fel ffurf gyfan.

Mewn cymhariaeth a'r gân gelf, nid meddwl yr ŷch chi yn bennaf, wrth ganu caneuon gwerin, am gywirdeb sain, am leisio (*vocalisation*), am gyfanrwydd brawddegau, y pethau yma sy'n dod i ystyriaeth beirniad cerdd arferol, ond am *fynegi teimlad*, mynegi profiad, mewn modd syml. Dim ond i'r cyflwynydd wneud hynny mi ellwch faddau iddol/iddi am ryw wallau bach technegol. Y pwynt yw ein bod ni'n anghofio'r pethau technegol yma wrth eu canu a'u cyfleu nhw yn naturiol, a gwneud y stori'n fyw i'r gynulleidfa. (Mae'r cwmni, gyda llaw, yn achos cân werin, yn bwysig dros ben – yn cydweithio a chydganu, a chyddeimlo â'r "storiwr" neu'r cyflwynydd.)

Nid dweud ydw i, cofiwch, nad ydy'r pethau eraill yn bwysig hefyd. Mae peidio â thorri gair a brawddeg yn bwysig anghyffredin. Mae bod mewn tonyddiaeth dda yn bwysig. Gorau i gyd os bydd y llais gwyachaf posibl gyda chi i ganu alaw werin. Ond dweud ydw i mai y *dehongliad* fel y cyfryw – gyda *chymorth* eich llais da, eich brawddegau celfydd a graenus, eich geirio effeithiol, a'ch lliwio a'ch pwyntio a'ch anwylo a'ch anwesu ar ambell air – sydd bwysicaf oll mewn canu alaw werin. Y dehongliad – byw y gân, a theimlo'i phrofiad hi, a gwybod ei chefnidir hi.

Mae angen i'r canu a'r cyflwyno fod yn gwbl naturiol a diymdrech. "Dweud" – "siarad", os mynnwch chi – y geiriau neu'r stori, gan bwyntio'r mynegiant yn ôl naws y gân, a gadael i'r alaw eich *dilyn* chi, fel petai – i *addurno*'ch stori chi. Ac os daw rhyw nodyn bach, rhyw *slur* ychwanegol i fewn wrth i chi fynegi'ch hun – rhywbeth nad yw e' ddim ar y copi – 'does dim gwahaniaeth. Mewn gwirionedd, efallai i chi ddatblygu'r alaw ymhellach. Yn y ffordd honno, wedi'r cwbl, y mae caneuon gwerin wedi tyfu a datblygu o'r naill genhedlaeth i'r llall.

LLYTHYR

Rhiannon

In *Canu Gwerin*, 32 (2009) you published some words written to my mother, Mrs Olwen Clough, by a lady from Australia. I couldn't track them down. My mother has since worked out what the lady was saying. It comes from a poem by Alfred, Lord Tennyson (1809–1892) called 'Ulysses':

'I am a part of all that I have met'.

Regards

John

Pen blwydd nodedig

Llongyfarchiadau calonnog i Dr Meredydd Evans a ddathlodd ei ben blwydd yn 90 oed yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Dyma englyn a gyflwynwyd iddo yn ystod un o'r (nifer) nosweithiau dathlu, sef yn Ysgoldy Goch, Cwmystwyth, 13 Rhagfyr 2009. Diolch i Iân Huws am y lluniau.

Ni fu'i well i'w gyfeillion – i'w harwain
Â'i her mor dwymgalon;
Rhy'i afiaith i'r heniaith hon
I oleuo'i halawon.

Gwilym Tudur



Iân Huws a Dr Meredydd Evans



Manon Jones, Dr Meredydd Evans, Phyllis Kinney

Adolygiadau

Meredydd Evans,

Hela'r Hen Ganeuon

(Talybont: Y Lolfa, 2010), 245tt. £14.95


Pleser o'r mwyaf fu darllen y gyfrol hon. Hanes casglu caneuon gwerin Cymraeg ydyw, o gasglwyr y ddeunawfed ganrif hyd at sefydlu'r Gymdeithas Alawon Gwerin ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Dechreuau'r gyfrol gydag ymdriniaeth ar waith Iolo Morganwg ac Ifor Ceri. Disgrifir nid yn unig y math o ganeuon a gasglwyd ganddynt, ond hefyd y broses o gasglu a chofnodi, a rhoddir llu o enghreifftiau o ganeuon na chyhoeddwyd o'r blaen. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, diddorol yw gweld rôl yr eisteddfodau yn sbarduno casglwyr megis Maria Jane Williams, Ieuan Ddu, Llewelyn Alaw ac Orpheus, a sylwir ar agwedd y cyfnod tuag at y caneuon. Mae trafodaeth yma ar ganeuon a anfonwyd at bapurau ac at gylchgronau megis *Y Perl* ac *Y Cerddor Cymreig* tua diwedd y ganrif, ac yna ceir hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a'r unigolion a gyfrannodd at y mudiad. I gloi ceir pennod gyfan ar gyfraniad a dylanwad enfawr John Lloyd Williams.


Mae'r hanes i gyd yn hynod ddiddorol ac afraid dweud ei fod yn darllen yn hwylus, hyd yn oed i ddisgwrraig. Nid yn unig mae'r awdur yn rhannu ffrwyth llafur oes, ond mae hefyd yn llwyddo i drosglwyddo ei frwdfrydedd personol dros y pwnc, ac yn dangos yn glir gymaint yw ein dyled i'r hen gasglwyr. Yr unig rwystredigaeth yw'r ffaith nad yw llawer o'r casgliadau eu hunain ar gael i ni mewn print i bori drwyddynt. Mae galw grymus yn y llyfr am i bobl fynd ati i olygu'r hen lawysgrifau: clywn!

Yn ei ragymadrodd esbonia Merêd mai'r gyfrol gyntaf o ddwy ydy hon, a'i fod yn gweithio ar chwaer gyfrol a fydd yn canolbwyntio ar ddadansoddi gweddau cerddorol ar y caneuon, a'u gosod yn eu cyd-destun. Edrychwn ymlaen yn arw at y gyfrol honno.

Cass Meurig



Cas Meurig a Nial Cain: Deuawd



Recordiad newydd ar label fflach:tradd ydy DEUAWD, sydd yn berfformiad gwreiddiol ac anarferol gan ddau o gerddorion gwerin mwyaf blaenllaw Cymru.

Mae Cass Meurig yn un o brif unawdwyr Cymru ar y ffidil draddodiadol a'r crwth, offeryn cenedlaethol sy'n unigryw i Gymru. Mae wedi gweithio'n rhyngwladol fel unawdydd ac mae'n chwarae gyda'r band Pigyn Clust. Bu'n chwarae gyda Fernhill rhwng 2000 a 2004 ac mae'n ymddangos ar eu halbymau whilia a hynt, ac ar albymau Pigyn Clust Perllan ac Enaid.

Gitarydd a ffidlwr o Ddeiniolen ydy Nial Cain, ac roedd yn un o aelodau gwreiddiol Flop Eared Mule, ddatblygodd wedyn yn The Old Rope String Band. Chwaraeai hefyd gyda The Borderers, band twmpath hynaf Tyneside lle dysgodd chwarae'r ffidil gan y meistr J. Forster Charlton. Yn wneuthurwr a thrwsïwr ffidlau wrth ei alwedigaeth, mae bellach yn chwarae gyda'r band twmpath Aderyn Prin.

Fel deuawd mae Cass a Nial yn bwrw golwg gwreiddiol a ffres ar hen ganeuon ac alawon Cymreig, ac yn eu cyfuno gyda chyfansoddiadau newydd. Ceir perlau o hen ganeuon, alawon dawns sionc, a thonau araf, swynol. Clywir canu ffidil llawn mynegiant, sŵn hynafol y crwth, a chyfeiliant gitâr sydd weithiau'n fyfyrïol, weithiau'n cyffroi – a chlymir pob dim at ei gilydd gan lais cynnes, naturiol Cass.



* 1 5 7 4 9 4 6 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.